YR YMOFYNYDD.

RHIF 73.] MEDI, 1853. [CYF. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

CENHEDLIAD GWYRTHIOL CRIST.

(*Parhad o tud.* 164.)

26AIN. Y mae gofyniad arall yn cyfodi yn naturiol wrth ddarllen yr adnod hon (Mat. ii. 7.)—Pa amcan oedd i gael ei hatteb gan yr ymholiad, yr hwn a wnaeth Herod, medd yr Hanes, a'r dewiniaid, "am yr amser yr ymddangosasai y seren?" Nid yw'n gofyn, b'le yr oedd i'w gweled y pryd hynny. Nid yw yn gofyn iddynt i'w dangos hi, nac iddo ef ei hun, nac i neb o'i gyfeillion. Nid yw'n *gorchymyn*, nac hyd yn oed yn gofyn cennad i neb o'i ddeiliaid, neu ei gyfeillion, gael myned gyda hwynt, i dalu eu parch i'r baban-frenhin hwn. Gofyn yn unig y mae ef am yr amser yr ymddangosasai y seren iddynt: gofyniad nad yw o fawr bwys ynddo ei hun, ond, fel y gellsid tybied yn naturiol, hollol ddifudd. Yn wir nis gallwn ganfod un diben i'r fath ofyniad, oddieithr iddo gael ei ofyn er mwyn parotoi'r meddwl, trwy rag-flaeniad, i dderbyn y newydd a gair yn yr 16 adnod, am laddfa'r plant bychain. Ond anturiaf ofyn i'r dyn mwyaf llygredig ei feddwl, a all ef gredu neu ddychymmyg fod y fath ddyn i'w gael, mor hollol faleisus a dieflig, ag y darlunir Herod yn ol y dyb hon. Y mae Herod yn awyddus i ddinystrio baban, o herwydd ei fod yn tybied, pe cai'r baban yma fyw nes cyrraedd oedran aeddfedrwydd, y gwnai ei ddiorseddu ef, gyfodi gwrthryfel cyffredinol, drawsfeddiannu ei orsedd, ac achosi dinystr hollol ei dylwyth. Y mae ganddo gyfleusdra yn awr i gael gwybod yn gymmwys pwy yw'r baban, ac y mae ganddo ddigon o allu i gyflawni ei amcanion. Ond, yn lle defnyddio y cyfleusdra hwn yn uniongyrchol, y mae'n defnyddio cynllun, yr hwn, y gellid meddwl, na fuasai byth yn ymgynnyg i neb a fyddai yn meddu ar y rhith lleiaf o deimladau dynol. Nid yw'n dangos yr awydd lleiaf i gael gwybod pwy oedd y person pennodol. Unig ddiben ei ymgais yw gwybod *oedran* y baban, fel y gallasai gael y boddhad o lofruddio pob plentyn oedd o fewn i flwyddyn o oedran y baban a fwriadesid i'w lofruddio, heb un cynhyrf-

iad i'r fath waith, heb ddim elw yn tarddu oddiwrth hynny, ac yn hollol afreidiol. Nis gallaf gyfrif ar un egwyddor arall p'am yr oedd y cwestiwn hwn, a hwn yn *unig*, yn cael ei ofyn gan Herod i'r dewiniaid. Ble mae cigydd o fath hwn wedi bod erioed? Y mae creulondeb Nero a chieidd-dra Caligula yn dynerwch i gyd, wrth ymddygiad uffernol yr Herod satanaidd hwn!

27ain. Yr 8ed adnod. Oddiwrth yr adnod hon, y gorchymyn sydd ynddi i chwilio'n *fanwl* am y mab bychan, ymddengys, er cymmaint o amgylchiadau gwyrthiol oedd yn cydfyned a genedigaeth yr Iesu, fod y lle y ganed ef wedi'r cyfan yn anwybodus i drigolion Jerusalem; ei bod yn angenrheidiol gwneuthur chwiliad *manwl* am y plentyn a gafodd ei ddwyn i'r byd mewn dull mor rhyfeddol.

28ain. Ac i bwy, debygech, y darfu i Herod ymddiried y gorchwyl hwn, yr ymofyniad *manwl* yma? Nid i'w oruchwylwyr a'i gyfeillion ffyddlon ei hun, er nad oedd yn byw ond chwech milldir o'r fan, ond i *set* o ser-ddewiniaid, ar y rhai nis gallasai ymddibynu dim. A ydyw yn debygol hefyd y buasai i'r doethion hyn roddi dim coel i'r diben a osodid i lawr gan Herod, ei fod yn awyddus i fyned i'w "addoli ef;" hwn yn awyddus i'w addoli ef; traws-arglwydd balch, trahaus Judea am addoli baban oedd i'w ddiorseddu ef; am addoli un ag a fyddai yn ewyllysio ei ddinystrio, ac yn meddu'r gallu i wneuthur hynny! Gallesid meddwl nad oedd eisiau bod yn ddewiniaid cyn canfod twyll y fath awydd ymddangosiadol; ac etto yn ol y 12 ad., yr oedd yn angenrheidiol iddynt gael eu rhybuddio mewn breuddwyd cyn y gallasent ganfod hyn.

29ain. Y mae'r 9ed adnod yn cynnwys gwaith afreidiol yn wir. Yr oedd yr *holl* archoffeiriaid ac ysgrifenyddion wedi datgan mai yn Bethlehem yr oedd yn rhaid i'r Messiah gael ei eni. Lle oedd hwn ar ochr y ffordd fawr o Jerusalem, chwech milldir oddiyno, ac etto nis gallasai y doethion ei gael allan; yr oedd yn angenrheidiol i'r seren ymddangos drachefn, a myned o'u blaen hwynt yr *holl ffordd yma, chwech* milldir, cofiwch, ac yna sefyll uwch ben y fan lle y ganed y plentyn. Ac ymhellach, ni ddarfu i neb eu canlyn hwynt—ni welodd neb arall y seren—neu ni ddarfu i syndod daro neb wrth weled seren yn sefyll uwchben tŷ, uwchben preseb—neu nid oedd neb arall ond y doethion yn gwybod, neu'n prisio dim beth ydoedd.

30ain. Y mae'r adnod yn diweddu gyda "llawenydd mawr iawn dros ben" y dewiniaid. Beth allasai fod achos "y llawenydd mawr iawn" hwn yn y ser-ddewiniaid? Nid oedd ganddynt hwy un elw personol yng ngenedigaeth y Messiah. Nid oeddent hwy yn disgwyl gwaredigaeth trwyddo oddiwrth un iau estronol, fel y gwnai ei ddisgyblion hyd ddydd ei farwolaeth. Nid oedd un fantais yn debygol o ddeilliaw iddynt hwy trwy ddiorseddiad Herod a gosodiad brenhin arall yn ei le. Ni allasai eu galwad dderbyn dim budd oddiwrth enedigaeth yr Iesu; ac nid oedd yn debygol y buasai tybiau paganaidd gael eu cadarnhau a'u lledu gan y Messiah, prophwyd wedi ei anfon i'r Iuddewon. I'r gwrthwyneb, os gwnai effeithio arnynt hwy mewn dim, gwae i'w crefft a thrueni iddynt hwy eu hunain, oeddent yr effeithiau mwyaf tebyg o ganlyn. Dyma sylfaen eu "llawenydd mawr dros ben" hwynt.

31ain. Ar y cyfan, y mae yr hanes hwn am y doethion yn ymddangos i mi mor ddisail—mor bell oddiwrth y gwirionedd—a'r rhan fwyaf o chwedlau Arabaidd a'r rhai yr ydym yn gyfarwydd. Yr ydym yn gwybod nad yw'r

Bod Dwyfol byth yn gŵyro oddiwrth gyfreithiau gosodedig natur, ond er mwyn cyflawni rhyw amcan neillduol. A ellir dangos *un* diben pwysig neu ddefnyddiol yn cael ei atteb gan ymddangosiad y seren hon, a'r daith y dywedir iddi achosi? Ystyriwn ar yr ochr arall

32ain. Pa mor hollol wrthwynebol oedd hyn i ymddygiadau Duw tuag at yr Iuddewon. Yn ol yr hanes hwn y mae yr Hollalluog yn datguddio i haid o ser-ddewiniaid dwyreiniol yr hyn oedd wedi gelu oddiwrth ei bobl ddewisedig ei hun; yn datguddio iddynt ddigwyddiad nad oedd a fynnent hwy ag ef, cyn iddo ei ddatguddio i'r cyfryw yr oedd yn perthyn iddynt mewn modd neillduol; genedigaeth eu Messiah, hyny yw, person oedd i gael ei *anfon* attynt hwy ym mlaenaf ac yn bennaf er eu haddysg. Yn ol yr hanes hwn, y ser-ddewiniaid hyn oeddent y cyntaf i roddi hysbysrwydd i bobl Duw, am enedigaeth eu Gwaredwr. Pwy brophwyd arall gafodd ei ddatgan yn gyntaf i genhedlaethau *paganaidd?* A gafodd genedigaeth Ioan Fedyddiwr ei fynegi iddynt? Cafodd yr holl rai ereill i gyd nid yn unig eu datgan i'r Iuddewon, ond yr oedd ymron yr holl ddaioni a wnaethant yn gyfyngedig iddynt. Nis gellir ammeu ynte, nad oedd yr ymddygiad hwn yn hollol groes i holl ymddygiadau blaenorol Duw.

33ain. Ystyriwn hefyd beth y mae'r hanes yn gynnwys. Fod yr Iuddewon wedi rhoddi coel i chwedl y dewiniaid am fodoliaeth seren na allasent ei gweled, ac fod y seren hon yn datgan iddynt newyddion o'r pwys mwyaf. Ymddengys yn anhebygol y buasai iddynt wrando ar, ac ymddiried yn, y dewiniaid, oddiwrth y gorchymyn a roddodd yr Hollalluog iddynt. "Na chaffer ynot a wnelo i'w fab, neu i'w ferch, fyned trwy'r tân; neu a arfero ddewiniaeth, na phlanedydd, na daroganwr, na hudol, na swynwr swynion, nac a geisio wybodaeth gan gonswriwr, neu frudiwr, nac a ymofyno a'r meirw; o herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo hyn,"—Deut. xviii. 10—12. "Am hynny," medd Isaiah, "y gwrthodaist dy bobl, tŷ Jacob, am eu bod wedi eu llenwi a dewiniaid allan o'r dwyrain, a'u bod yn swynwyr fel y Philistiaid."—(ii. 6.) Y mae Duw etto, trwy'r prophwyd Jeremi, yn dywedyd, "Am hynny na wrandewch ar eich prophwydi, nac ar eich dewiniaid, nac ar eich breuddwydwyr, nac ar eich hudolion, nac ar eich swynyddion * * * canys celwydd y mae y rhai hyn yn brophwydo i chwi." Felly yr oeddent yn cael eu gwahardd i wrando ar y fath bobl; a dywed yr hanes fod gwaith yr Israeliaid yn gwrando arnynt wedi tynnu arnynt ddialedd Duw; ac etto dywedir yn yr hanes o'n blaen, fod yr offeiriaid a'r ysgrifenyddion, mewn cynghor llawn ynghyd, wedi rhoddi coel, yn ddi-betrusder, i eirwiredd y swynwyr hyn o'r dwyrain.

34ain. Os yw'r ffeithiau a nodir yn yr hanes hwn yn wir, yr oedd tuedd ynddynt i lygru *egwyddorion rhinweddol yr Iuddewon*, ac i dynnu ymaith eu ffyddlondeb a'u hufudd-dod oddiwrth yr un gwir Dduw. Yr oedd tuedd ynddynt i beri i'r Iuddewon gredu fod hawl y ser-ddewiniaid hyn i wybodaeth o ddigwyddiadau, presennol a dyfodol, trwy ymgynghori a'r ser, yn wir. Yr oedd tuedd yr Iuddewon i adael eu ffyddlondeb i Dduw, a gosod hyder diffuant yng nghastiau y twyllwyr rhagrithiol hyn, eisioes yn ddigon mawr. Pwy all ddywedyd i'r Hollalluog ei hun gefnogi a dwyn hyn ymlaen trwy gyfryngiad gwyrthiol?

35ain. A ellir dangos i'r dewiniaid hyn eu hunain ddyfod yn Grist'nogion o herwydd y dadguddiad hyn a roddwyd iddynt? Yr wyf yn tybied nas gellir. Os nas gellir, ar y goreu, yr oedd yn afreidiol. Ac yr wyf yn

cyfaddef fod yr hanes yn ymddangos i mi, o'r dechreu i'r diwedd, yn un benbleth o annhebygoleddau, anghyssonderau, a chroes-ddywediadau anghymodadwy. Gan hynny, pu'n ai Matthew a'i ysgrifenodd, ai nade, bernwch chwi.

36ain. Oddiwrth yr 11eg adnod, ymddengys i'r dewiniaid gael yr Iesu a'i fam mewn *ty*, iddynt ei addoli ac offrymmu anrhegion iddo. Gofynnaf yn unig, a gafodd y rhoddion hyn eu cyflwyno iddo fel brenhin ysprydol, neu ddaearol? Os fel brenhin *ysprydol*, paham na ddaethant yn Grist'nogion? Os daethant yn Grist'nogion, onid yw'n beth rhyfedd iddynt hwy ddyfod yn Grist'nogion ddeng-mlynedd-ar-ugain cyn i neb o'i apostolion ddyfod, a chyn i'r Iesu ymddangos fel y Crist i neb o'i frodyr? Ond os fel brenhin *daearol* yr offrymmasant yr anrhegion iddo, yna onid yw'n beth rhyfedd, fod dieithriaid, deiliaid llywodraeth arall, yn dyfod i addoli plentyn nad oedd neb yn ei wlad ei hun yn ei dderbyn na'i adnabod?

37ain. Yn y 12ed adnod, yr ydym yn cael y seren yn diflannu yn ddisymmwyth. Yr oedd hi wedi arwain y swynwyr siwrnai hirfaith, o Arabia i Jerusalem, ac o Jerusalem i Bethlehem; beth a ddaeth o honi wedi'n sydd ddirgelwch. Gellid meddwl, modd bynnag, fod ei phresennoldeb yn angenrheidiol o hyd, er mwyn eu hattal i gael eu twyllo gan ddeuwynebaeth Herod, gan eu bod yn meddwl ei fod ef yn hollol gywir yn y dymuniad a broffesodd, i fyned ac addoli Iesu; ac yr oeddent yn bwriadu, fel yr oedd yn naturiol iddynt, i ddychwelyd ar hyd yr un ffordd ag y daethant wrth gyfarwyddid y seren. Yn lle, modd bynnag, fod y *seren* yn parhau i'w hyfforddi, cawsant eu rhybuddio mewn *breuddwyd* i ddychwelyd i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

38ain. Adn. 13. Cynted y darfu i'r dewiniaid ymadael, y mae angel, unwaith etto, yn ymweled a Joseph, mewn *breuddwyd*, i'r diben i hyspysu iddo fod Herod yn bwriadu ddinystrio'r plentyn, ac i orchymyn iddo ffoi i'r Aifft.

Y mae amser y breuddwyd hwn yn ymddangos yn anhappus, *yn uniongyrchol ar ol ymadawiad y dewiniaid.* Pe buasai yn digwydd cyn eu hymadawiad, gallasent gynnorthwyo rhieni'r plentyn yn eu gofid, a'u cynghori ynghylch eu ffoedigaeth. Buasai hyn yn fwy defnyddiol a phwysig, o herwydd yr oedd sicrwydd moesol na fuasai i Herod ymofyn bywyd y plentyn, hyd nes dychwelai y dewiniaid i fynegi iddo ble yr oedd i'w gael, neu hyd nes clywai am eu hymadawiad. Yr hyn sydd yn ychwanegu at rhyfeddod yr amgylchiad yw, fod y dewiniaid wedi cael eu rhybuddio, yn gyffelyb i Joseph, mewn breuddwyd, am y perygl a bradwriaeth Herod; ac etto ar ol y rhybudd yma, ni roddasant ddim hyspysrwydd i rieni'r Iesu, ac ni ddefnyddiasant un moddion er ei ddiogelu, ond golygasant yn unig eu cyfleusdra eu hunain.

39ain. Y mae'n lled anhebygol y buasai yr Aifft yn cael ei dewis fell lle i Joseph a Mair i ffoi iddo. Y mae pob un sydd wedi darllen hanes taith yr Israeliaid o'r Aifft i Ganaan, yn gwybod y drafferth a'r anhawsdra aruthrol, os nid yr amhossiblrwydd, o gyflawni'r fath amcan, er fod ysgrifennydd yr hanes yn tybied y gallasai gymmeryd lle *yn y nos*—(adn. 14). A phan aethant yno, pa gyssur allasent gael? Buasent yn estroniaid hollol, mewn rhan arall o'r byd, wedi mudo o Asia i Affrica, heb berthynasau na chyfeillion, ac ymhlith pobl na fuasent yn edrych arnynt gydag un llygad ffafriol. A ydyw ddim yn fwy tebygol o lawer, y buasai iddynt fyned gyda'r

dewiniaid, i'w gwlad hwynt, sef Arabia, lle y buasent yr un mor ddiogel rhag dichellion Herod, ac wrth lawer llai o drafferth; lle y cawsent eu derbyn gyda breichiau agored gan y rhai a deithiasant mor bell i addoli'r baban, a lle y cawsent eu groesawi gan bawb gyda phob parch dyledus iddynt.

40ed. Adn. 15. Fel pe buasai yn canfod y gwrthddadleuon hyn y mae ysgrifennydd y bennod yn anfoddlon i fyned heibio heb roddi rheswm dros y digwyddiad. Gan hynny, y mae efe yn gosod allan mai achos y siwrnai oedd cyflawniad prophwydoliaeth—"O'r Aifft y gelwais fy mab." Y mae'r geiriau hyn i'w cael yn Hosea xi. 1, "Pan oedd Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aifft." Nid prophwydoliaeth ydyw'r geiriau hyn, yn sicr. Y maent yn cyfeirio at yr hyn oedd wedi cymmeryd lle, sef, gwaredigaeth yr Israeliaid oddiwrth yr Aifftiaid. Y mae'r bennod yn myned yn y blaen i goffhau anniolchgarwch yr Israeliaid, er cael eu gwaredu, ac yn cyhoeddi'r gospedigaeth oedd yn eu haros mewn canlyniad. Gan hynny, ymddengys fod yr ymadrodd wedi cael ei ŵyrdroi yn hollol oddiwrth ei arwyddocäd gwirioneddol, gan ryw un sydd am bassio yn lle'r efengylwr Matthew, i'r diben i wneuthur chwedl eithaf annhebygol i ryw raddau yn gredadwy.

41ain. Yn yr 16ed adnod, y mae digwyddiad yn cael ei goffau, y mwyaf barbaraidd a lychwinodd dudalennau hanesyddiaeth erioed, sef, llofruddiad "yr holl fechgyn oedd yn Bethlehem, o ddwy flwydd oed a than hynny." Y mae yr amseryddiad a gawn yn yr adnod hon o gryn bwys. Cafodd y llofruddiad ei orchymyn, "wrth yr amser yr ymofynasai Herod yn fanwl a'r doethion." Yn ol y cyfrif hwn, gellir casglu fod Iesu yn yr *ail* flwyddyn o'i oedran. Os nad oedd Herod wedi barnu felly oddiwrth ei ymofyniad *manwl*, nis gallasai fod ganddo liw rheswm am orchymyn llofruddiad y rhai oeddent yn yr ail flwyddyn. Cofiwn ynte, fod yr Iesu a'i rieni yn byw yr holl amser hwn yn Bethlehem.

42ain. Ymddengys yr anhebygolrwydd o'r fath orchymyn barbaraidd, hyd yn oed oddiwrth y tywysog mwyaf gwaedlyd, pan yr ystyriom mor lleied mewn maintioli oedd tref fechan Bethlehem, mor agos oedd hi i Jerusalem, ac mor hawdd y gallasai Herod ddyfod i wybod pwy *dy* y ganed yr Iesu ynddo, a'r plentyn neilluol y mynnai ei ddinystrio; yn enwedig gan fod ganddo flwyddyn gyfan i gyflawni ei amcan.

43ed. Ymddengys yn debygol etto, mai anwiredd yw'r hanes hwn, oddiwrth yr amgylchiad fod *pob hanesydd arall* yn ddistaw, ynghylch y llofruddiad yma. Y mae gadawiad allan y peth, yn enwedig gan Josephus, yr hwn sydd yn ysgrifennu am yr amser hwn, a chyda'r fath fanylrwydd, ymron yn anghyfrifadwy ar un egwyddor, ond na chafodd y fath orchymyn erioed ei roi na'i gylawni.

44ain. Adn. 17, 18. I ennill credadwyaeth, y mae'r awdwr unwaith etto, yn arteithio yr Hen Destament am brophwydoliaeth. "Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedasid gan Jeremiah y prophwyd, gan ddywedyd, llef a glybuwyd yn Rama, galar ac wylofain, ac ochain mawr, Rachel yn wylo am ei phlant; ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddynt." Os gwnewch droi i Jerem. xxi. 15, cewch weled nad oes un brophwydoliaeth yngeiriau'r prophwyd yma etto. Nid *prophwydoliaeth* yw'r adnod sy'n cael ei difynu, eithr son y mae am yr hyn oedd *wedi* cymmeryd lle, a'r hyn oedd ar y pryd yn destun galar dwys, sef y caethgludiad Babilonaidd. Ramah oedd y man lle y casglwyd yr Iuddewon ynghyd i'w cludo i gaethiwed. Yr oedd yn

sefyll yn llwyth Benjamin. Y Benjamin hwn oedd fab ieuengaf Rachel, yr hon a fu farw ar ei enedigaeth—(Gen. xxxv. 19). Y mae, gan hynny, harddwch neillduol yng ngeiriau'r prophwyd, "Llef a glybuwyd yn Ramah, cwynfan ac wylofain chwerw; Rachel (mam Benjamin, tad y llwyth) yn wylo am ei meibion, ni fynnai ei chysuro am ei meibion, am nad oeddynt (mwyach mewn bod fel llwyth annibynnol). Y mae'r adnodau nesaf yn cynnwys prophwydoliaeth, y byddai iddynt ddychwelyd o dir y gelyn, a dyfod drachefn i'w bro eu hun.

45ain. Adn. 19, 20, 21. Mewn *breuddwyd* arall y mae Joseph yn cael hyspysrwydd fod Herod wedi marw, neu yn hytrach, fod y *rhai* oedd yn ceisio einioes y mab bychan, wedi marw, ac y mae'n cael gorchymyn i ddychwelyd i dir Israel. "Ac wedi ei gyfodi, efe a gymmerth y mab bychan, a'i fam, ac a ddaeth i dir Israel." Adn. 22, "Eithr pan glybu efe fod Archelaüs yn teyrnasu ar Judea yn lle ei dad Herod, efe a ofnodd fyned yno. Ac wedi ei rybuddio gan Dduw mewn *breuddwyd*, efe a giliodd i barthau Galilea.

46ain. Mae'n debyg na ddarfu iddo, yn y breuddwyd o'r blaen, dderbyn yr holl hyspysrwydd oedd yn ddymunol; oherwydd er i farwolaeth Herod gael ei fynegi iddo, ni chafodd ddim gwybodaeth pwy oedd wedi ei ganlyn. Efe a *glywodd* mai Archelaüs, mab Herod, oedd wedi ei ganlyn yn y llywodraeth, ar ol dyfod i dir Israel, yna efe a ofnodd.

47ain. Ac etto y mae ryw faint yn hynod iddo ofni, ac yntau wedi cael sicrwydd mewn breuddwyd, fod y "*rhai* oedd yn ceisio einioes y mab bychan wedi marw."

48ain. Ac ofn peth oedd arno? Ofn myned *yno*. Y mae'n rhaid i mi ddywedyd etto—dywedir i'r bennod hon gael ei ysgrifennu gan Matthew, oedd yn byw yn Jerusalem, ac i drigolion Judea. Rhaid dywedyd hefyd, mai *yn* Judea yr oedd (preswylfod Joseph a Mair yn ol y pennodau hyn), dim ond chwech milldir o Jerusalem. Etto, y mae'r ysgrifennydd hwn, wrth siarad am ddyn oedd yn dyfod o ran arall o'r byd, yn dywedyd, ei fod yn ofni myned *yno*. A fuasai ddim yn fwy cwmmwys iddo ddywedyd, ei fod yn ofni dyfod yma, gan ei fod ef yn byw yn y lle, neu yn agos i'r lle i'r hwn yr oedd Joseph yn dyfod? Yn y wlad o leiaf.

49ain. Y mae'n ymddangos hefyd, nid yn unig, mai nid yn Judea yr oedd yr ysgrifennydd yn byw, ond ei fod hefyd yn anghyfarwydd a daearddarlun Canaan. Y mae'n ymddangos fel pe byddai yn tybied mai peth rhwydd iawn oedd i Joseph (wedi iddo ddyfod i dir Israel, a chael ei rybuddio drachefn mewn breuddwyd) "gilio i barthau Galilea." Yn awr, yr oedd yn rhaid i ddyn fyddai'n dyfod o'r Aifft fyned trwy *holl Judea*, oedd dan lywodraeth Archelaüs, trwy yr oll o Samaria, oedd dan lywodraeth yr *un* dyn, cyn y gallasai fyned i Galilea, yr hon oedd dan lywodraeth Herod, *brawd* Archelaüs.* I'r diben i ochelyd y rhai'n, yr oedd yn rhaid iddo fyned dros y Môr Marw, yna trwy dir y Moabiaid, Arabia Greigiog, tir yr Ammoniaid, ac Arabia Deserta, cyn y gallasai gyrraedd Galilea. Ni fuasai hyn yn cael ei alw gan un awdwr cymmeradwy, yn *gilio* i barthau Galilea.

50ain. Adn. 23. O'r diwedd, modd bynnag, gellir tybied i Joseph gyrraedd Galilea, a gwneuthur ei drigfan yn "y ddinas a elwir Nazareth."

* Archelaüs oedd a llywodraeth Judea, Samaria, a Idumea; Philip a Trachonitis; a Herod Antipas (mwrddwr Ioan Fedyddiwr) a Galilea a Perœa.

Dyma'r tro cyntaf y mae enw Nazareth yn cael ei fynegi. Nid yn Nazareth, yn ol yr hanes hyn, yr oedd rhieni'r Iesu yn byw. Nage; Bethlehem oedd eu cartref. Yno yr arosasant cyhyd ag y gallasent gyda diogelwch, dros flwyddyn o leiaf. Ar ol yr amser hwnnw, buont yn crwydro mewn gwlad anghroesawgar, mewn rhan arall o'r byd, cyflawnasant deithiau na chlywyd erioed am eu bath, ond mewn ffug-chwedlau, ac o'r diwedd anneddasant yn Nazareth, o herwydd y rheswm canlynol—"Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy'r *prophwydi*, y gelwid ef yn Nazaread." Pa broffwydi, attolwg, ddarfu ddywedyd hynny, ymha ran o'u ysgrifeniadau y mae cael gafael ynddo? Gadewir hyn i ddychymmyg, a chwilir am dano yn ofer, canys *nid oes y fath ymadrodd i'w gael yn un man yn yr Hen Destament.*

O. E.

(I'w barhau).

SYLWADAU AR GYTHREULIAID.

(*Parhad o Tudal.* 181).

Mr. Ymofynydd,—Fel arweiniad i mewn i'r sylwadau a ganlynant, dygaf ym mlaen eiriau yr hanesydd Trindodaidd dysgedig a thra enwog hwnnw, John Lawrence Mosheim, D. D., yr rhai ydynt yn atteb fy amcan yn dra chywir. Can. I., 2 Ran., Toriad xi., "Gellir meddwl yn rhwydd na allai undeb a heddwch lywodraethu yn hir yn yr eglwys, yn gymmaint a'i bod yn gynnwysedig o Iuddewon a Chenedloedd, yr rhai oeddent yn edrych y naill ar y llall gyda chasineb o'r chwerwaf. Heb law hynny, *gan nad oedd y rhai oedd wedi derbyn Cristnogrwydd yn gallu llwyr ddadwreidio, y rhagfarnau a ffurfiwyd yn eu meddyliau, yn eu dygiad i fynu ac a sicrhawyd gan amser, hwy ddygasant gyda hwynt i fonwes yr eglwys gyfran fwy neu lai, o'u crefydd flaenorol.*" Pa ddyn, yr hwn nid ydyw wedi ei gwbl ddallu gan ragfarn, nad addef fod y sylw uchod yn sicr o fod yn gywir; gan hynny, yr wyf yn awr yn myned i ddangos o ba le y daeth y gred mewn angylion syrthiedig. Er amser Zoroaster, yr hwn (medd rhai) oedd yn byw cyn i'r Iuddewon gael eu caeth-gludo i Babilon, ac fe allai ym mhell cyn ei amser ef, yr oedd Magiaid* Persia yn gorph o offeiriaid a swynwyr, y rhai trwy gyfrwystra i dwyllo, oeddent yn peri i'r lluaws anwybodus feddwl eu bod hwy yn gallu gwneuthur gwrthiau, darllen tesni, swyno, &c.; ac yr oedd yn eu meddiant, os gellir eu coelio, ddadguddiad oddiwrth Brahma, a alwant Veda's, a llyfr arall a elwir "Gosodiadau Menw" *(Institutes of Menu).* Yn y llyfr hwn, mae Menw yn dywedyd, "i'r Bod diddechreu ar ol ewyllysio felly, ddwyn allan amrywiol fodau o'i sylwedd ddwyfol ei hun; yn gyntaf, efe a greodd y dyfroedd, ac a roddodd ynddynt had yn ffrwythlawn. Daeth yr hadyn hwn yn *wy*, disglaer fel aur, ac yn yr wy hwn y cafodd ef ei eni ei hunan, o'r ddelw Bramha, tad mawr pob ysbrydion. Fe eisteddodd y gallu mawr yn yr wy hwn yn segur am flwyddyn gron; ac ar ddiwedd honno, efe a barodd i'r wy rannu ei hunan yn ddau, ac o'i dwy ran y ffurfiodd ef y nefoedd a'r

* Gelwir rhain yn Gymraeg, "doethion a ddaethant o'r dwyrain"—Matt. ii. 1, 16. Dynion oeddent o darddiad pechadurus iawn. "Plant oedd eu meibion wedi gael o'u mammau oedd Magiaid Persia, y dynion mwyaf cysegredig yn eu plith, meddai John Potter, D. D., yn ei *Antiquities of Greece*, vol. ii. 263.

ddaear. Rhyngddynt y gosododd ef yr awyr denau, &c. Oddiwrth yr enaid goruchaf, efe a ddygodd y meddwl allan, yn hanfodi yn sylweddol, ond yn anamgyffredadwy i synwyr, yn anfarwol." Felly mae corph ac enaid dyn yn tarddu o'r un ffynnonell, sef, y sylwedd ddwyfol. Dywed Menw yn ei osodiadau, "i'r Bod diddechreu, ar ol rhannu ei sylwedd ei hunan, fyned yn hanner gwryw, a hanner manyw, ac o'r rhan fanyw, y dygodd Viraj. Gwybyddwch mai myfi ydyw y person hwnnw, yr hwn a ymddyg y Viraj gwryw ynddo ei hun—myfi, ffurfiwr yr holl fyd gweledig hwn. Gan ddymuno rhoddi bodoliaeth i'r hîl ddynol, myfi, yn y cyntaf, a furfiais ddeng arglwydd bodau creuedig, goruchel mewn duwioldeb, Marichi, Atri, Angiras, Pulastya, Pulaha, Cratu, Prachetas neu Dacha, Vasishtha, Bhrigu, a Narada. Hwy, yn llawn o ogoniant, a greasant saith Menw * ereill, ynghyd a duwiau," &c.

"Ond yn ol fel y dywaid ereill, ail ffurfiodd y Bod Goruchaf ei hun, nid mewn un dull yn unig, sef un Birmha, ond yn dri, fel hyn, Birmha, a gallu i greu; Vichnou, a gallu i ddiogelu; a Sieb, i ddinystrio."

"Dywedir fod Vichnou, yr ail berson yn y Drindod Hindwaidd, wedi ymgnawdoli naw gwaith, er mwyn gwared dynolryw o'u sefyllfa beryglus. Y tro cyntaf, yn llew; yr ail, yn fochyn; y trydydd, yn dortoise; yn bedwerydd, yn sarff; yn bumed, yn Framin (neu eiddil trodfedd a hanner o hyd); yn chweched, yn fwystfil—hanner dyn a hanner llew; yn seithfed, yn ddraig; yn wythfed, yn ddyn wedi ei eni o wyryf; yn nawfed, fwnci."

"Yn y Shastah, darllenir fel hyn, 'Fe greodd yr un tragywyddol fodau ereill, mewn rhan o'i sylwedd ei hun. Yn gyntaf, Birmah, Bistnoo, a Sieb. I *Birmah*, efe a roddodd allu llywodraeth a gogoniant; i *Bistnoo*, weithredoedd o dynerwch a charedigrwydd; i *Sieb*, braw, creulondeb, a dinystr. Yna efe a greodd *Moisasoor* a'r holl *Debtah Logue*, neu y llu angylaidd, gan eu rhoddi yn ddeiliaid i *Birmah*, yr hwn hefyd a wnaeth efe yn îs-lywydd iddo yn y nef, a Bistnoo a Sieb, yn gynnorthwywyr iddo."

"Ar ol hyn, gwrth-ryfelodd rhan o'r llu angylaidd, a hwy a gawsant eu gyrru o wyddfod Duw: ond ar eiriolaeth y lluoedd ffyddlawn ereill, efe a feddalhaodd lymder ei ddedfryd, ac a ffurfiodd gwrs o buredigaeth. Ar ol i Birmah amlygu hyn iddynt, hwy a derbyniasant y newydd gyda diolchgarwch oll, ond y tywysogion; yr rhai mewn amser a ennillasant yn ol eu hawdyrdod dros y lleill, ac a'u sefydlasant hwynt yn eu gwrthgiliad. Ar y diwedd y mae *Bouannee Drugah*, un o'r duwiau Hindooaidd, i ddisgyn i'r ddaear, ac i ddistrywio Moisasoor a'i ddilynwyr. Yr ysprydion syrthiedig hyn, sydd yn awr yn peri bywyd yng nghyrff dynion, creaduriaid, a llysiau." Cefais hynna oll, yn *Priestley's Comparison of the Institutions of Moses with those of the Hindoos.*

Fel hyn y mae Dr. Mosheim yn egluro philosophyddiaeth y dwyrain. "Yr oedd rhai (o'r doethion) yn dychymmygu fod dau egwyddor dragywyddol o'r rhai y tarddodd pob peth, un yn llywodraethu ar y goleuni, a'r llall ar y sylwedd (matter); a thrwy eu ymryson parhaus, yr oeddent yn cyfrif am y gymmysgedd o ddrwg a da sydd yn y greadigaeth. Yr oedd ereill yn

* Carwn glywed gan y Bardd Cyfrin, Pa un o'r wyth ydyw "Menw ab tair gwaedd;" ac os na all ddangos hynny, y mae yn eglur ei fod wedi profi mai *un* o freiniau "Bardd Braint a Defod," ydyw cael bod a'i draed yn rhyddion o'r cyffion, ar ol ysgrifennu yr YNFYDRWYDD a welir yn yr *Ymofynydd* am y Nod Cyfrin.

dal nad oedd y bod oedd i lywodraethu ar y sylwedd ddim yn egwyddor dragywyddol; ond bod deallus o îs radd, un o'r rhai hynny a ddygodd y Bod Goruchaf allan o hono ei hun. Yr oeddent yn bwrw fod y bod hwn wedi cael ei gyffroi gan annogaeth ddisymwth i ddwyn i drefn y garnedd afluniaidd o sylwedd, yr hon oedd yn gorwedd wedi ei gau allan a drigfa y Duwdod, ac hefyd i greu yr hil ddynol. Fe ffurfiodd y drydydd *sect*, gyfundraeth wahanol i'r ddwy uchod, a ddychymygasant ynddynt eu hunain, fod Trindod o fodau, yn yr hon yr oedd y Bod Goruchaf yn gwahaniaethu, yn gystal oddiwrth yr egwyddor ddrwg sylweddol, ac oddiwrth Greawdwr y byd îs-leuadawl hwn. * * * Y mae i'w sylwi, pa fodd bynnag, gan fod yr holl sectau hyn wedi eu sylfeinu ar yr un egwyddorion cyffredin, nid oedd eu hymranniadau yn eu rhwystro i gytuno yn rhai o'u golygiadau am y Duwdod, y Greadigaeth, a'r hil ddynol, ac amrywiol o bethau ereill. Yr oeddynt oll gan hynny o un fryd yn cydnabod bodoliaeth natur dragywyddol, yn yr hon yr oedd cyflawnder o ddoethineb, daioni, a phob perffeithrwydd arall yn trigfannu; ac am yr hwn nid oedd un dyn yn gallu ffurfio drych-feddwl cyflawn. Yr oeddent yn ystyried y Bod hwn fel y goleu mwyaf pur a disglaer, yn daenedig drwy yr holl ehangder, yr hyn a alwent *pleroma*, gair Groeg yn arwyddocau Cyflawnder, (cylch y gwawl, yn Gymraeg), ac yr oeddent yn dysgcu am dano ef a'i weithredoedd y pethau canlynol:—"Fe ddygodd natur dragywyddol, anfeidrol berffaith, ac anfeidrol wynfydedig (ar ol trigfannu trwy dragywyddoldeb mewn unigolrwydd cyfangwbl, ac mewn tawelwch gwynfydedig), o'r diwedd o honi ei hunan, ddau eneid o wahanol rywogaeth, yr rhai oedd yn berffeith debyg i'w Tad Goruchaf. Daeth o undeb briodol y ddau hyn fodau ereill, yr rhai hefyd a ddilynwyd gan genedlaethau ereill; fel ag y cafodd llwyth nefol ei ffurfio yn y *pleroma*. Galwyd yr hiliogaeth ddwyfol hon yn *aeons* gan y philosophyddion, am eu bod yn anghyfnewidiol yn eu nhatur, ac uwchlaw gallu marwolaeth, enw ag sydd yn arwyddo yn y iaith Roeg natur dragywyddol. Yr oedd dadl fawr ym mhlith doethion y dwyrain pa sawl *eon* oedd. Tu hwnt i drigfannau y goleuni, lle y mae y Duwdod a'i hiliogaeth nefol yn trigfannu, y mae yn gorwedd garnedd aflunaidd, ac aflywodraethus o sylwedd, yn cael ei gyffroi gan ymsyniadau cynhenid, aflywodraethus ac afreolaidd. Un o'r naturiaethau nefol, gan disgyn o'r *pleroma*, nail ai o'i fympwy ei hunan, neu, trwy ddwyfol anfoniad a ddygodd i drefn y garnedd anhardd hon, a'i haddurnodd hi ac amrywiaethau mawrion o roddion: greodd ddynion, ac anifeiliaid is-radd o amrywiol rywogaethau i'w lenwi a thrigolion, ac a ddiwygiodd ei drygioni trwy gymmysgu a hi ryw gyfran o oleuni, ac hefyd o sylwedd nefol a dwyfol.

Mae hwn, sef Creawdwr y byd, yn cael ei wahaniaethu trwy yr enw *demiurge* oddiwrth y Bod Goruchaf. Y mae ei garacter yn gyfansoddedig o gyneddfau disglaer a thraha *(arrogance)* annioddefadwy; ac y mae ei drachwant anferthol o ymerodraeth yn taflu ei dalentau a'i rinweddau allan o'r golwg. Mae yn honni hawl arglwyddiaethol yn y byd newydd y mae efe wedi ei ffurfio, fel ei allu penadurol ef, a chan gau y Bod Goruchaf allan yn hollol oddi hono, y mae yn gofyn oddiwrth ddynolryw, ddwyfol anrhydedd iddo ef a'i gyd-gymdeithasyddion."

"Cymmysgedd yw dyn o gorph daearol a llygredig, ac eneid yr hwn sydd o nefol darddiad ac mewn rhyw fesur yn ddylifiad o'r Duwdod. Mae y rhan ardderchoccach hon yn cael ei gwasgu i lawr a'i llwytho gan y corph,

yr hwn yw trigfa pob trachwantau afreolaidd, a dymuniadau amhur. Y corph sydd yn hudo yr eneid i beidio chwilio am y gwirionedd, ac y mae, nid yn unig yn ei droi ef i beidio myfyrio ar, ac addoli y Bod Goruchaf, fel ag i gyfyngu ei addoliad a'i barch i Greawdwr y byd hwn, ond hefyd yn ei glymmu wrth wrthrychau daearol, ac i ddilyn yn ormodol bleserau cnawdol, trwy yr hyn y mae ei natur yn cael ei halogi yn gyfan-gwbl. Mae y meddwl penadurol yn arferu amrywiol foddion i wared ei hiliogaeth o'r caethiwed galarus hwn, yn neillduol gweinidogaeth cennadon dwyfol, y rhai y mae ef yn eu hanfon i oleuo, i gynghori, ac i ddiwygio yr hil ddynol. Yn y cyf-amser y mae y *demiurge* arglwyddiaethol yn ymdrechu a'i holl rym yn erbyn amcanion trugarog y Bod Goruchaf; yn gwrthwynebu dylanwadau y gwahoddiadau difrifol hynny a'r rhai y mae efe yn cynghori dynolryw i ddychwelyd atto ef, ac y mae ef yn llafurio i ddileu gwybodaeth o Dduw o feddyliau bodau deallus. Yn yr ymryson hyn, y mae yr eneidiau (ag ydynt yn taflu ymaith iau creawdwyr a chynnalwyr y byd hwn, yn cyfodi tuag at eu Tad Goruchaf, ac yn gorchfygu y cyffroadau aflonydd a phechadurus y mae sylwedd lygredig yn gynnyrfu o'u mewn), i gael, ar ddadfeiliad eu cyrph marwol dyrchafu yn ddioed i'r *pleroma*;" [cylch y gwawl yr wyf yn bwrw.] "Ar y llaw arall, y mae y rhai ydynt yn aros dan gadwynau caethion coelgrefydd, a sylwedd lygredig ar ddiwedd eu heinioes, i gael myned i gyrph newyddion," [cylch Abred] "hyd oni ddeffroant o'u cysgadrwydd. Yn y diwedd, pa fodd bynnag, daw y Bod Goruchaf allan yn fuddugoliaethus, wedi gorchfygu pob gwrthwynebiad, ac wedi gollwng o'u caethiwed y rhan amlaf o'r eneidiau, y rhai ydynt wedi eu carcharu mewn cyrph marwol, a dettyd osgedd y byd gweledig hwn, ac a'i anhudda ef mewn dinystr cyffredinol. Ar ol yr amser prysur hwn, adferir y tawelwch cyntefig yn y greadigaeth; a Duw a lywodraetha gydag ysbrydion dedwydd, mewn gwynfydedigrwydd anghynyrfiedig trwy yr oesoedd tragywyddol."

Dyna ddigon o Mosheim am philosophyddiaeth y dwyrain.

Mae yr ychydig yna allan o hanes amrywiol farnau gwahanol bleidiau y Magiaid yn ddigon i ddangos mai yr un ydyw *aeon* drwg eu philosophyddion, y *demiurge* Menw, a'r un sydd yn awr yn myned dan yr enw Diafol; neu mai o philosophyddiaeth y dwyrain mewn rhan helaeth iawn y cafwyd ei hanes ef a'i angylion syrthiedig.

Dywed Mosheim—fod celfyddyd ddirgelaidd yr Iuddewon yr hon a alwent *kabbala* yn tarddu o'r un ffynnon. "Mae y gelfyddyd hon," meddai ef, "mewn llawer o bethau yn dra thebyg i philosophyddiaeth y dwyrain, neu a llefaru yn fwy cywir, yn wir, yr un philosophyddiaeth ydyw wedi ei haddasu at grefydd yr Iuddewon, a'i themeru a rhyw gymmaint o gymmysgedd o wirionedd."

Y philosophyddiaeth fwyaf enwog yn amser Crist a'i Apostolion yng ngwlad Groeg a Rhufain ydoedd un yr *Academiaid*, neu philosophyddiaeth Alexandria fel ei gelwir weithiau. Plato yr enwoccaf a'r mwyaf poblogaidd o ddoethion Groeg ydoedd dychymmygydd honno. Yr oedd ef o'r farn fod sylwedd yn beth tragywyddol a bod yn gynhenid ac hanfodol iddo enaid a eilw ef "enaid afresymmol y byd," i Dduw roddi enaid rhesymmol i'r byd corphorol a'i uno a'r enaid afresymmol oedd yn hanfodol i sylwedd. Ac ar ol ffurfio a rhoddi bywyd yn y ddaear, yr haul, y lloer, a duwiau gweledig ereill; aeth Tad mawr yr ysbrydion i greu y duwiau anweledig a'r cythreuliaid. Gwedi darfod a'r rhai hynny edrychodd drachefn i'r ffurfiau oedd-

ent yn ei feddwl *(ideal forms)* a chanfu yno dair rhywogaeth o fodau, y rhai a ddygodd efe i fodoliaeth yn greaduriaid marwol wyneb y ddaear, yr awyr, a'r dyfroedd. Fe a osododd y drafferth o greu y rhai hyn ar dduwiau o îs, oblegid pe buasai efe yn eu creu hwynt ei hunan, buasent o angenrheidrwydd fel y duwiau yn anfarwol. Ar y llaw arall, efe a greodd eneidiau dynion ei hunan, allan o weddill eneid rhesymmol y ddaear. Cythreuliaid oeddent yn y cyntaf, a chyrph tenau awyraidd ganddynt. Ar ol digio Duw trwy esgeuluso eu dyledswyddau, hwy gawsant eu condemnio i uno a'r corph dynol, trwy yr hyn y mae eu cyneddfau dwyfol yn cael eu rhwystro yn fawr i weithredu. Gwel *Dr. Gillies' History of Greece.*

Ymddengys yn dra eglur i mi mai o'r ddwy ysgol enwog hon y tarddodd y gred ym modoldeb y diawl, ac amrywiol lygriadau ereill ydynt wedi ymlysgo i mewn i Gristnogrwydd, ac wedi llygru yn fawr laeth y gair, megis, "ymgnawdoliaeth Duw Fab," anfarwoldeb yr enaid, llwgr natur, &c; Cwestiynau nad ydyw yn taro yma i'w trin. Ydwyf, &c.,

J. Jones.

(I'w barhau).

Y WEINIDOGAETH YN NGHYMRU.

Wrth ddychwelyd at y pwngc fuom yn ei drin mewn rhan yn ein Rhifyn diweddaf, gadawer i ni ddywedyd, na fuasem yn ei gymeryd mewn llaw oni buasai ein bod yn ei ystyried yn bwngc o bwys neillduol yn yr amgylchiadau presenol. Ymddengys, o bosibl, na fydd ein sylwadau yn ddigon cynnil wrth fodd rhai; nac yn ddigon manwl a helaeth wrth fodd eraill. Ond bydd yr *Ymofynydd*, cofier, yn agored, am yr ychydig amser y bydd etto dan ein gofal ni, ifel y gall eraill gyhoeddi eu golygiadau ar y pwngc, os mynant. A chofier hefyd mai nid ynghylch beiau a diffygiadau y gweinidogion presenol y mae y cwestiwn ar hyn o bryd; ond ynghylch *parhad* y weinidogaeth yn ein plith, wedi i'r gweinidogion hyn, neu y rhan fwyaf o honynt, gael eu hanalluogi gan henaint, neu eu symud gan angau. Cwestiwn *arall* ydyw—Pa fodd y gellid ychwanegu at effeithioldeb y weinidogaeth ag sydd yn awr yn ein mysg, trwy ei gwneuthur yn fwy cyfattebol i anghenion a gofyniadau'r oes; er yn ddiau y bydd rhaid cymeryd hyny o beth hefyd dan ystyriaeth pan y deuir, os y deuir, i ymgynghori ynghylch cael gwell trefn na'r un sydd yn bresenol, er cyfarwyddo a chynorthwyo dynion ieuainge yn eu parotöad at waith y weinidogaeth. Y mae anhawsderau anarferol yn nglyn â'r peth. Nid ydym ar fedr condemnio neb. Ac nid y'm ni ein hunain yn gwbl rydd oddiwrth y cyhuddiad, pan y dywedwn, nas gellir cyfiawnhau nac esgusodi gweinidogion ac eraill sydd yn meddu ar ddylanwad yn ein heglwysi, am na fuasent wedi ceisio gochelyd yn erbyn y fath berygl ag yr ydym wedi cyfeirio atto. Ond gobeithiwn nad ydyw etto yn rhy ddiweddar.

Y mae yn anhawdd i gael gan y claf i ymofyn am feddyg hyd nes byddo wedi ei argyhoeddi o'r angenrheidrwydd o ddefnyddio moddion i symud ei anhwyldeb. Ac yn fynych efe a erys yn llonydd hyd nes byddo perygl yn syllu yn ei wyneb. Ond gwell hwyr na hwyrach. Y mae un anhawstra neillduol ynglyn â'r matter mewn llaw; sef, mai nid yn union-gyrchol, ond yn mhen amser—nid yn awr, ond maes o law—y byddir i deimlo *yn brofiadol*, yr anghyfleustra a'r golled ag yr ydym ni yn dymuno eu rhybuddio rhagddynt; er, yn wir, fod rhai o'n heglwysi yn gwybod eisioes beth yw bod

yn amddifad o ragorfreintiau ag y buont gynt yn eu mwynhau. Help mawr tuag at symud neu wella unrhyw ddrwg, ydyw i adnabod ei natur, a'r achosion sydd wedi arwain iddo.

Nid y'm ar fedr cynnyg cynllun newydd gyda golwg ar y peth dan sylw: gadewir hyny o beth i eraill. Digon ar hyn o bryd fydd, galw sylw at y drwg neu y diffyg y sydd; gydag ychydig awgrymiadau, wrth fyned ymlaen, o'r hyn a farnwn ni a ellid ac a ddylid ei wneuthur.

Ynghylch yr *achos* o'r prinder neu y diffyg presenol o ymgeiswyr at y weinidogaeth yn ein plith, dichon y bydd amrywiaeth barn. Ond y mae y ffaith—o fod prinder—fel y mae gwaetha'r modd, tuhwnt i ddadl, os nad ydym yn camsynied yn fawr. Cyfrifir y prinder yma gan rai, ond odid, i'r cyfnewidiadau anocheladwy sydd wedi ac yn cymeryd lle yn ein gwlad—i'n cyflwr mynedol *(transition state)* fel cenedl ac fel corff o grefyddwyr. Y mae y cyfrifiad yn gywir, i ryw fesur; ond nid yn gwbl. Nid yw arferion a threfniadau ag sy'n cyfodi *oddiar egwyddorion* yn cyfnewid gyda'r cyfnewidiadau cymdeithasol, a ddichon fod yn cymeryd lle yn ein gwlad a'n hoes. Yr un yw y natur ddynol o hyd: yr un hefyd yw yr angen a'r lles o addysg ac ymarferiadau crefyddol. Nis gellir eu hebgor dan unrhyw gynnydd yn y gwybodaethau celfyddydol: os dim, bydd galwad gynnyddol am danynt; neu ynte bydd i grefydd golli tir. Pa bryd bynag y gadewir i grefydd fyned yn wasanaeth-ferch i drefnidaeth dymorol, ffarwel am ei hurddas a'i buddioldeb ac am ei bywyd hefyd! Ond nis gall hyny gymeryd lle. Gyda'r holl adlewyrchiad o wybodaethau celfyddydol, ag sydd yn mron a dallu rhai dynion, ceir gweled yn barhaus, fod crefydd yn un o brif angenrheidiau dynoliaeth; ac mai trwyddi ac ynddi y cawn ein cysur a'n elw penaf. Deuir i deimlo yn fwy-fwy mai "nid ar fara yn unig y bydd byw dyn."

Y mae rhai, o bosibl, o'r sawl a gyfrifant y diffyg neu y prinder o weinidogion ieuainge i gyfnewidiadau yr oes, yn ei ystyried yn golled o ychydig bwys; neu, ynte, y maent yn disgwyl am feddyginiaeth hefyd oddiwrth gyfnewidiadau digwyddiadol. Nid y'm ni yn cydymdeimlo â'r cyfryw; nac ychwaith â'r sawl sydd am adael y cwbl i ofal Rhagluniaeth; fel pe na bai Rhagluniaeth bob amser yn dwyn ei hamcanion i ben trwy foddion ac offerynau.

Ar y cwestiwn pwysig o lwyddiant y gwirionedd yn gyffredinol, a'r cwestiwn neillduol o barhad Undodiaeth yn Nghymru, clywsom ddynion doeth a dysgedig yn llefaru gyda llawer o hyawdledd. Y mae yn amhosibl i Undodiaeth fyned i lawr, meddent, o herwydd mai gwirionedd ydyw; ac y mae'r gwirionedd yn drech na chyfeiliornad ac yn sicr o lwyddo. Amen! ddywedwn ninau, felly y byddo. Yr ydym ni yn cwbl-gredu, nad oes dim mor oleu ar dir rheswm ac ysgrythyr, na dim mor effeithiol er cysur ac iechydwriaeth dynolryw, â'r gred nad oes ond un Duw, a hwnw yn Dad. Ond nid yw profiad na hanesyddiaeth yn rhoddi lle i ni ddisgwyl y bydd i'r gwirionedd mawr hwn bob amser i gael yr oruchafiaeth. Yr oedd y gwirionedd yr un mor sicr pan y rhag-ddywedodd Paul am y dirywiad oddiwrth y ffydd; ac yr un mor anghyfnewidiol pan yr oedd caddug Pabyddiaeth yn ymdaenu dros holl wledydd crêd. B'le yn awr y mae eglwysi enwog Asia leiaf—y saith ganwyllbren aur? Nid yw eu henwau hwyrach ar gael, oddieithr yn Llyfr Dadguddiad Ioan, a Llyfr Hanesyddiaeth yr Eglwys. Gellir atteb yn wir, fod y llygriad Pabyddol a chleddyf y Mahometaniaid yn ddigon i gyfrif am eu llwyr ddifodiad. Ond beth etto ddaeth o'r eglwysi Undodaidd fu

unwaith mor flodeuog yn Poland? Yn mha le y gallwn weled unrhyw *olion* o honynt, oddieithr yn ysgrifeniadau ardderchog eu gweinidogion—*Bibliotheca Fratrum Polonorum*—ac ymhlith eppil y rhai hyny o honynt a gawsant loches yn Transylvania? Nid allodd hyd yn oed gwirionedd, a moesgarwch, a dysgeidiaeth, a rhydd-ymofyniad tawel, ddim gwrthsefyll rhuthriadau trais ac erledigaeth dymorol. Beth all crefydd wneud, pan y byddir yn alltudo neu yn cau genau ei phroffeswyr? Y peth sydd wedi cymeryd lle, a all cymeryd lle etto, er mewn ffordd wahanol a llai treisiol. Y mae profedigaethau eraill a allant gyfarfod â chrefyddwyr heblaw y fath ag y cyfarfu Job dduwiol â hwynt. Y mae gormod o esmwythder yn aml yn gwneud mwy o niwed nag y mae erledigaeth.

Trwy drugaredd, yn ein gwlad ni—dan ein llywodraeth bresenol—yr ydym yn mwynhau mesur helaeth o ryddid crefyddol, llawer mwy nag a fwynhawyd gan ein hynafiaid. Ond nid yw gelyniaeth i rydd-ymofyniad wedi marw etto. Y mae pob eglwys a chlochdŷ newydd a welir yn cyfodi ar hyd ein gwlad, yn arwydd lled amlwg o ryw ymdrech penderfynol i geisio ad-enill y bobl i fod dan ddisgyblaeth y Llyfr Gweddi Gyffredin. Nid yw yn debygol y byddir yn ol mewn dim a allo cyfoeth a dylanwad bydol ei wneuthur tuag at gyrhaeddyd yr amcan hwnw. Hyn a'i gwna yn fwy gofynol, yn y dyddiau hyn, i'r sawl a safant dros y gwir—dros grefydd bersonol—crefydd sydd a'i gwraidd yn argyhoeddiad y deall a'r gydwybod—i fod yn ddiwyd ac yn ffyddlon gyda'u gwaith; ac i fod bob amser yn barod, a'u "lwynau wedi eu hamwregysu a'u canwyllau wedi eu goleu."

Ond dealler, nid ydym yn gwan-obeithio ynghylch trefnau Rhagluniaeth; nac yn ofni y bydd i'r nos ein gorddiwes mor fuan wedi torriad dydd. Ond dichon, er hyny, y gall tymor nychlyd gymeryd lle etto ar wir grefydd yn ein hoes a'n gwlad *oleu* ni, fel ei gelwir. Beth arall fydd i'w ddisgwyl, os yr esgeulusir neu y collir yr offerynoliaeth, trwy ba un y mae Rhagluniaeth hyd yma yn cyflawni yr amcan mawr o gadw y meddwl a'r deall ar ddihun ac ar waith gyda phethau crefydd? Bydd rhyw un, o bosibl, yn barod i atteb, mai nid colled ond enill i'r byd ac i grefydd, fyddai rhoddi heibio y swydd weinidogaethol yn gyfan-gwbl—swydd ag sydd wedi cael ei chamddefnyddio yn fynych i atteb amcanion coel-grefydd a thrais, a hunanoldeb, ac mai peth tra gwrthun ydyw unrhyw swydd offeiriadol yn eglwys Crist, lle y mae pob credadyn wedi ei wneuthur yn offeiriad i Dduw." Gwir yw hyn, rhaid addef; ond nid y gwir i gyd. Cofier hefyd, nid y'm ni am gadw i fynu unrhyw offeiriadaeth swyddol; nac ychwaith am gadw y weinidogaeth bresenol ar ei thraed, ymhellach nag yr ymddengys ei bod yn dra buddiol er adeiladaeth yr eglwysi; os nid yn anhebgorol, yn yr amgylchiadau presenol, er cynnal bywyd a chynnydd yn ein plith; ac wrth gwrs i'w rhoddi heibio mor gynted ag y dyfeisir ac y dangosir offerynoliaeth o well. A gadael y bydd i brofiad a gwybodaeth gynnyddol, yn mhen amser, i arwain i drefn mwy rhagorol, y mae yn gwestiwn pwysig—Beth sydd i'w wneuthur yn y cyfamser?

Nid yw ein ffydd ni yn wan, yn effeithioldeb y gwirionedd, i'r neb ag sydd yn ei dderbyn ac yn ei ddal yn y cariad o hono. Yr ydym yn credu fod "Efengyl Crist" yn awr, fel yr oedd yn y dechreuad, ac fel y bydd i barhau fwy-fwy hyd ddiwedd byd, "yn allu Duw er iechydwriaeth i bob un ag sydd yn credu." Ar yr un pryd ni ellir gwadu fod dylanwadau eraill mewn gweithrediad, pa rai ydynt yn anffafriol i dderbyniad ac arddeliad gwresog

o'r gwirionedd yn ei burdeb, yn ngwyneb gwawd y byd a cholled tymorol mewn llawer ffordd. Nid oes un achos i ammeu y bydd y cynulleidfaoedd hyny ag ydynt yn awr yn sefyll dros rydd-ymofyniad a'r athrawiaeth o Un Duw a Hwnw yn Dad i lynu yn ffyddlon wrth eu hegwyddorion, ac amryw o honynt gyda llwyddiant cynnyddol, tra y parhao eu haelodau i fod mewn undeb a chydweithrediad â'u gilydd. Ond y cwestiwn yw—Beth a ddaw o'r cynulleidfaoedd hyn pan fyddont wedi myned heb weinidogion? A pha fodd y gellir disgwyl gochelyd y cyfryw ymddifadiad, oni byddir yn rhoddi annogaeth i ddynion ieuainge fyddont yn meddu ar awydd a chymwysder at waith y weinidogaeth, i ymbarotoi i lanw lleoedd y rhai hyny fyddant, wrth gwrs natur, maes o law, wedi cael eu galw i orphwys oddiwrth eu llafur?

Y mae genym wir barch i gynulleidfaoedd Undodaidd y Deheudir. Ystyriwn eu bod yn cyflawni swydd bwysig yn eu hoes a'u gwlad, fel tystion dros y gwir. Ein taer ddymuniad yw eu gweled yn cynnyddu mewn nifer, mewn zel, mewn defnyddioldeb, ac mewn pob dawn a rhinwedd Gristnogol. A dyna p'am y cymerwn y rhyddid hwn, i'w rhybuddio rhag y perygl y maent yn wynebu arno—y perygl o fod maes o law heb weinidogion. Ac y mae genym gryn hyder nas cymerir yn dramgwydd, ein bod yn gofyn i'n brodyr ymhellach—Beth sydd yn cael ei wneud, neu a fwriedir ei wneud ganddynt ar gyfer y peth yma?

Hyd yn ddiweddar yr oedd Coleg Caerfyrddin yn cael ei hystyried yn ddigon i wneuthur hyn oll. Yr oedd yn dwyn i fynu amlder o ddynion ieuainge at y weinidogaeth—yn meddu ar gymwysderau gweinidogaethol mwy neu lai. Yn gyffredin yr oedd nifer yr ymgeiswyr yn fwy nag oedd yr eisiau ar ein heglwysi yn Nghymru. Mewn canlyniad byddai rhai o honynt o bryd bwy gilydd yn myned i weinidogaethu i gynulleidfaoedd yn Lloegr ag oeddent yn arferol o ddewis yn weinidogion, ddynion a allent fyw ar ychydig, fel nyni, y Cymry. Daeth yr arferiad o annog myfyrwyr ieuainge o ddawn a diwydrwydd i fyned i berffeithio eu haddysgiaeth yn Mhrif Athrofa Glasgow; a thrwy hyn collwyd amryw o'r rhai ag oeddent yn debyg o fod yn dra defnyddiol yn ein plith. Cyfnewidiad arall, anffafriol i eglwysi Presbyteraidd Cymru, ydoedd gostwng y cynnorthwy arianol i'r myfyrwyr i'r haner, er mwyn ychwanegu tâl a rhif yr athrawon. Oddiar hyny yr ydys wedi dwyn i fynu amryw ysgolheigion rhagorol; ond dim un (neu ddim ond un) i weinidogaethau ymhlith yr eglwysi cyfeiriedig. Y mae yn wir fod y Coleg yn agored i Undodiaid, fel i eraill; ond nis gall dyn ieuange gynnal ei hun yno, yn ol y drefn bresenol, oddieithr iddo gael cryn lawer o gynorthwy oddiwrth ei berthynasau neu ryw rai eraill; heb son am y gost o barotoi at fyned yno.

Yn awr nid yw cyfoethogion, yn y dyddiau hyn, yn ymddangos yn awyddus i ddwyn i fynu eu meibion i'r weinidogaeth Ymneilluedig. Ac nid oes un drefn ar droed, nac wedi cael ei chynnyg tuag at gynorthwyo ymgeiswyr at y weinidogaeth a fyddont o amgylchiadau isel yn y byd, gan nad beth fyddo eu doniau a'u cymwysderau. Pa ryfedd ynte ei bod hi arnom fel ag y mae? A pha welliant a ellir ei ddisgwyl heb ryw drefn newydd?

Ond y mae yn amlwg, debygem, y gellid symud y rhwystr hwn heb nemawr o draul a thrafferth i bersonau neilluol. Braidd y gall fod dyn ieuange o ddawn a duwioldeb ac a fyddo yn awyddus i waith y weinidogaeth, heb fod hyny yn adnabyddus i'w weinidog neu i flaenoriaid y gynulleidfa.

Ac yn gyffredin y mae ysgol neu ysgolion da yn bur agos i'r cymydogaethau hyny lle y byddai dynion ieuaingc o'r fath yn debygol o gyfodi. Byddai tystiolaeth y gweinidog a'r ysgol-feistr, parth talentau ac amgylchiadau y cyfryw ymgeisydd, yn sicr o enill dwys ystyriaeth y rhai a ewyllysiant gyfranu rhywbeth tuag at gadw i fynu y weinidogaeth yn gyffredinol. Gwyddom ni am rai a gyfranent yn ewyllysgar at y fath achos, yn flynyddol neu ynte wrth raid ; a diau fod llawer eraill o'r un tueddiad, nas gwyddom ni am danynt yn bersonol. Ac ymhellach, gellid yn rhwydd ffurfio cymdeithas gynnwysedig o'r sawl a ewyllysiant gyfranu tuag at roddi cynorthwy wrth raid i ddynion ieuaingc a fyddont yn ymbarotoi i'r weinidogaeth. Wele fras-lun o'r hyn a ddymunem ni ei weled yn cael ei gynnyg a'i osod mewn gweithrediad. Ië, yr ydym ni yn awr yn ei gynnyg i ystyriaeth ein brodyr. Ac yr ydym yn barod hefyd i gyfrinachu ar y pwngc, ac yn gyffredinol i gyflawni swydd ysgrifenydd, oreu y gallom, hyd nes ffufir y cyfryw gymdeithas ; pan yr appwyntir trysorydd, dirprwywyr, &c., gan yr aelodau. Os gadewir i'r cynnygiad fyned i'r dim, nis bydd hyny gobeithio o achos annheilyngdod yr hwn sydd yn ei gynnyg. Gellir gwneud y cynllun yn gyflawn rhwng dau neu dri mewn cyfarfod byr. Nis gallwn ni wneuthur rhagor ar hyn o bryd, heblaw cynnyg ein gwasanaeth bersonol yn ewyllysgar ac yn galonog; ac addaw 10s. yn flynyddol at achosion y gymdeithas a fwriedir ei ffurfio ; ynghyd a derbyn enwau y neb a ewyllysiont fod yn aelodau, a'r symau yr addawant gyfranu—a rhoddi adroddiad ar yr *Ymofynydd* o'r modd yr a'r cynllun yn y blaen, os yr a ymlaen.

Gair neu ddau etto, cyn diweddu. Na'n cam-ddealler. Nid y'm ni yn ystyried fod addysgiaeth Colegol yn anhebgorol, nac ychwaith o hono ei hun yn ddigonol er cymmwyso dyn at y weinidogaeth. Rhaid addef fod rhai wedi passio trwy goleg heb enill nemawr o ddim yno ag a fu o ddefnydd iddynt eu hunain na neb arall. Y mae eraill, na fuont erioed mewn coleg, wedi cyrhaeddyd enwogrwydd haeddianol mewn dysg a defnyddioldeb. Nid o ddarllen Cicero a Demosthenes y daeth John Elias i fod yn areithydd. Nid trwy addysgiaeth colegol y daeth David John i fod yn feistr ar gelfyddyd rhif a mesur. Nid yw athrylith cynenid yn beth ag sydd i'w fesur wrth reolau cyffredin. Ond i'r cyffredinolrwydd o ddysgawdwyr, os mynant ddysgu eraill yn effeithiol, y mae addysgiaeth flaenorol yn anhebgorol. A'r peth penaf a wna y cwrtaith meddyliol a geir mewn coleg, dros weinidog ieuangc, ydyw, gosod sail dda i oruwch-adeiladu arni trwy ddiwydrwydd yn ol llaw.

Ac etto, ni fynem er dim annog neb i gymeryd at y weinidogaeth gyda golwg y byddant wrth hyny i wella eu hamgylchiadau bydol. Heblaw bod yr hwn a lettyo y fath amcan, yn debyg iawn o gael ei siomi, y mae yr amcan ei hun yn annheilwng o ddisgybl, chwaethach apostol Iesu Grist.

Y mae yn gwestiwn ag sydd yn haeddu ystyriaeth, pa un ai ydyw y gweinidogion yn cael eu talu am eu llafur, yn gyfattebol i'r hyn y mae eu hamgylchiadau yn gofyn. Y cynulleidfaoedd eu hunain sydd i farnu am hyn o beth, gan wrando ar lais ystyriaeth a chydwybod. Y mae yn ddigon os ydyw y gweinidog ei hun yn teimlo fod ei gynulleidfa yn cyfranu tuag atto yn ol eu gallu. Nis gwyddom am neb ag sy'n achwyn : ond gwyddom am amryw a fuasent yn foddlon i weinidogaethu am ddim, pe buasai amgylchiadau yn gofyn ac yn caniatęu hyny.

Disgwyliwn bellach glywed golygiadau eraill. Nid y'm ni yn bwriadu dychwelyd at y pwngc, os na chymerir sylw o'n cynnygiad. I.

TRETH EGLWYS.

Mr. Ymofynydd,—Yn y *Cambrian* diweddaf, y mae hanes fod Tŷ yr Arglwyddi wedi rhoddi o'r diwedd eu barn ar y ddadl yn *Braintree* yng nghylch y Dreth Eglwys, ac felly wedi esbonio y gyfraith, fel nas gellir mwyach ddadleu yn ei chylch; a'r farn ydyw, na all y rhan leiaf ddim sefydlu treth gyfreithlon yn groes i'r rhan amlaf yng nghyfarfodydd plwyfau. Ar yr Ymneillduwyr y bydd y bai os rhaid talu Treth Eglwys mwyach ym mhob man braidd trwy Gymru. Ydwyf, &c.

Aberdâr, Awst 22ain, 1853. J. Jones.

TRAETHAWD AR Y GEIRIADAU A FABWYSIADIR YN Y TESTAMENT NEWYDD, AG YDYNT YN DWYN PERTHYNAS I EBYRTH.

Fy nyben, yn y traethawd canlynol, yw egluro'r darluniadau hynny o farwolaeth Crist, ag ydynt wedi eu benthycca oddiwrth yr aberthau Iuddewig. Anhawsder y pwnge hwn sydd wedi cyfodi, mewn mesur mawr, oddiar rag-derfynedig fwriad mewn dynion dysgedig i ddeall, megis desgrifiad llythyrenol, y rhes honno o ymadroddion, ag nad oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd yn eu bwriadu ond yn unig mewn ffordd o gyffelybiad cysgodol.

Bydd yn angenrheidiol i mi, yn y lle cyntaf, roddi cyfrif byrr o'r dybenion i'r rhai yr oedd ebyrth yn cael eu haberthu. Y mae llawer o'r farn, eu bod hwy o ddwyfol ddechreuad. Ond y prawf gorau y maent yn ei ddwyn o blaid eu tyb, yw, eu hanalluogrwydd i amgyffred pa fodd y gallasai creaduriaid rhesymmol ddyfeisio dull mor chwithig o addoliad; megis pe byddai raid iddynt gasglu mai Duw a sefydlodd beth bynnag a gredont ei fod yn rhy wrthun i fod o sefydliad dynol. Mewn perthynas i'r Paganiaid pa fodd bynnag, ni allwn olrain eu meddyliau hwy ar y pwnge hwn, trwy ystyried nattur y bodau i'r rhai yr oeddent yn aberthu. Eulunod y Cenhedloedd oeddent ysbrydion dynion meirwon.*

Yr oeddent yn dychymmygu fod yr eneidiau ag oedd eu ffolineb yn wneud yn dduwiau, ar ol marwolaeth, yn trigfannu y delwau a ffurfid ganddynt hwy; eu bod yn bywioccau rhyw un o'r anifeiliaid, neu yn rheoli yn un o lu'r nefoedd, yr haul, y planedau, Arcturus, Orion, neu Pleiades; ac fod yr un pleserau ag oeddent yn eu mwynhau, fel creaduriaid dynol, yn rhoddi hyfrydwch iddynt yn eu sefyllfa newydd o fod.

Oddiwrth hyn y mae dechreuad, mwyaf tebygol yr ebyrth paganaidd, y rhai oeddent yn cael eu golygu megis annhregion a gwleddoedd, a sicrhaent gyfeillgarwch yr hwn oeddid yn eu haberthu iddo, ac o'r rhai yr oeddid yn tybied fod y Duwdod yn cyfrannogi, pan fyddent yn cael eu difa, naill ai trwy eu gosod yn agored i belyderau'r haul, trwy fellt, neu ynte trwy dân yr allor. Pa werthfawroccaf fyddai'r offrwm yngolwg y rhai a'i hoffrymai, mwyaf sicr oeddid yn gredu, fyddai i'w cymmeradwyo i'w ymgeleddwr dychymmygol; a chymmaint oedd eu gwallgof, fel nad arbedent wrthddrychon anwylaf eu serch, ond a roddent hyd yn oed eu meibion a'u merched i'w difa yn y ffagl sanctaidd.

Mewn ymddarostyngiad at wendid dynion ag oeddent wedi eu dwyn i fynu yn y rhagfarnau afresymmol hyn, yr ysgrifenwyd yr ysgrythurau Iuddewig. A phan y maent yn llefaru am yr unig wir Dduw, ni allwn ni ddim rhyfeddu eu bod, i ryw

* "Y tad yn gystuddiol trwy alar anamserol am ei fab, yr hwn a ddygwyd ymaith yn gynnar, wedi gwneuthur iddo ef ddelw, yn awr a'i haddolodd megis yn dduw, yr hwn oedd y pryd hwnnw yn ddyn marw; ac a roddes i'r rhai oedd dano seremoniau ac aberthau. Hwy a wnaethant hynod ddelw brenin, er mwyn trwy eu dyfalwch hwn gwenieithio iddo ef oedd absennol, fel pe b'ai bresennol. A'r gwerin, wedi eu denu trwy degwch y gwaith, a gyfrifent yna yn dduw, yr hwn ychydig o'r blaen a berchid fel dyn."—Doeth. xiv. 15—20.

radd, yn ei ddarlunio ef yn ol amgyffrediadau mwy gwrthun y rhai hynny, er lles mwy uniongyrch y rhai yr oeddent wedi eu bwriadu. Yn ganlynol, er eu bod hwy yn troi sylw'r Israeliaid oddiwrth lawer o wrthddrychon at Un gwrthrych addoliad; er eu bod hwy mewn cyferbyniad i'r dynion a fuant *feirw* cyn iddynt gael eu *seintio*, yn ei ddesgrifio ef megys y *bywiol* Dduw; etto y maent yn ei ystyried ef yn gyffredin fel bod dynol, ac yn priodoli iddo alluoedd, serchiadau, cynneddfau, a character *dyn*. Ac er y gwarafuniad i ffurfio un math o gyffelybrwydd i'r hwn a'u dug hwynt allan o wlad yr Aipht, y mae'r holl gorph o ddefodau Iuddewig yn deilliaw oddiwrth y meddwl, fod y Goruchaf yn trigo yn mhlith dynion, ac mai y tabernacl oedd ei drigfan. Yn Dduw, ac ar yr un pryd yn Frenin Israel, y mae ef yn gorchymmyn i'w bobl nesau atto trwy seremoniau oeddent wedi eu sylfaenu ar y rhai'ny trwy y rhai yr oedd yr hen Genhedloedd yn dynesu at y cedyrn orchestwyr oeddent wedi meirw, neu y pennaethiaid byw. Y mae ef yn gwarafun iddynt ymddangos o flaen yr Arglwydd yn wag, heb ddarparu y fath roddion ag oedd dynion yn y dyddiau hynny yn arfer roddi, pan ganiattaid iddynt fyned ger bron eu huwch-radd. Fe ellir casglu oddiwrth Mica (vi. 6), fod aberthau o greaduriaid byw yn cael eu hystyried yn y goleu hyn. "A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymmaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymau, ac â dyniewyd? A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew?" "Ni chymmeraf *(dderbyniaf*, medd yr Arglwydd) fustach o'th dŷ na buchod o'th gorlanau."—(Ps. 1, 9). Y mae'n eglur oddiwrth holl ganol sain yr Ysgrythur, fod addolwyr yr Arglwydd yn dychymmygu ei fod ef yn *bwytta* o'r hyn a offrymmid iddo. Y mae ef yn gorchymmyn i Moses wneuthur bwrdd, a'i drwsio ef â dysglau, a llwyau, a chaeadau, a phiolau, a dodi ar y bwrdd fara gosod, bara i fod yn mhresennoldeb Duw, ger bron ei wyneb yn wastadol.—(Ecs. xxv. 23, 29, 30.) Y mae ef yn achwyn, "Offrymmu yr ydych ar fy allor fara halogedig. A chwi a ddywedwch, Yn mha beth yr halogasom di? Am i chwi ddywedyd, Dirmygus yw *bwrdd* yr Arglwydd. Ac os offrymmu yr ydych y dall yn aberth, onid drwg hynny? ac os offrymwch y cloff a'r clwyfus, onid drwg hynny? Cynnyg ef yr awr hon i'th dywysog, a fydd efe boddlon it'? neu a dderbyn efe dywyneb?—Mal. i, 7, 8. Yma yr ydym yn gweled fod aberthau yn cael eu cynnyg fel gwledd i'r Duwdod; a chyda'r un dyben ag yr oedd y cyffelyb roddion yn cael eu rhoddi i bennaeth daearol. Ebyrth tanllyd yr Arglwydd a elwir *bara* Duw.—Lef. xxi. 6, 7, 8, 17, 21, 22. Ac wrth geryddu yr Israeliaid am syniadau oeddent hwy mewn gwirionedd, er eu bod yn wrthun, yn eu mynwesu am dano ef, y mae Jehofa yn gofyn, "A *fwyttâf* fi gig teirw? neu a *yfof* fi waed buchod? Os bydd newyn arnaf, ni ddywedaf i ti."—Ps. 1, 12, 13; gwel hefyd Ecs. xxix. 22—25 "Yna'r offeiriaid, y Lefiaid, a safant o'm blaen, i offrymmu i mi y brasder a'r gwaed, medd yr Arglwydd Ior. Hwy a ânt i mewn i'm cyssegr, a hwy a nesant at fy *mwrdd*, i'm gwasanaethu."—Ecs. xliv. 15, 16.

Yr aberth-hedd a elwir yn *fwyd* aberth tanllyd i'r Arglwydd.—Lef. iii. 11. Ac y mae Paul yn darlunio'r rhai sydd yn *gwasanaethu*'r allor, megis yn *gyfrannogion* o'r allor; o'r tân, cysgod-lun *(symbol)* y Duwdod.—1 Cor. ix. 13.

Y mae'r poeth-offrymau yn fynych yn cael eu desgrifio megys yn boddhau nid yn unig archwaeth ond arogl Duw. "Fy offrwm a'm bara i'm hebyrth tanllyd o arogl peraidd yn eu tymmor."—Num. xxviii. 2; gwel Ecs. xxix. 18, 25; Lef. i. 9, 13, 17.

A pha un ai diolchgarwch dynol ai dwyfol appwyntiad a roddodd ddechreuad i aberthau Cain ac Abel; ni ellir dywedyd fod ynddynt un cymmwysder, ond ar y meddwl fod eu Duw yn debyg iddynt eu hunain. Yr oedd yn rhaid eu bod, o'r hyn lleiaf, yn ei dybied ef yn alluog o dynnu pleser oddiwrth ffrwyth y tir, a blaen-ffrwyth (neu gyntaf anedigon) y gwartheg a'r defaid.

Rhaid peidio gollwng dros gof mai y deddfwr Iuddewig, wedi ei ddwyn i fynu fel ag yr oedd yn nuwinyddiaeth yr Aipht, yw hanesydd y prif aberthau: ac nad yw ef ddim yu cadarnhau eu bod wedi eu sefydlu trwy orchymmyn Duw.

Oddiwrth yr hyn a grybwyllwyd yn barod, y mae'n ymddangos yn amlwg iawn i'n rheswm cyffredin, nad oedd gwir nattur y Duwdod yn cael ei chadw mewn golwg, ar y pwngc o aberthau; ond fod amgyffrediadau gwael yr Israeliaid, yr arferion â'r rhai yr oeddent wedi ymgynnefino ymysg eilun-addolwyr, y dyb fod y Goruchaf yn fod

dynol, yn cael eu cynnwys yn eu hol gorph o ddefodau. Aeth mae rhannau o'r ysgrythurau a dystiant yn erbyn yr athrawiaeth hefelgwidd; ac a cadwymynant i ni beidio rhybied fod yr Hollalluog y fath un a ni eu hunain. Pan oedd Solomon wedi gorphen y demil, fe annogodd ei resswn ef a lefain allan, "A gwir yw y presswylfa Duw gyda dyn ar y ddaear? wele'r nefoedd a nefoedd y nefoedd ni allant dy angyffwl ed? pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiladais i?"—2 Cron. vi. 18. Synnai ag sydd yn cydgordio â'r hyn mae'r efengyl yn et dôysgu: "Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw, fel pe bai arno eisiau dim: gan ei fod yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll."—Actau vii. 48; xvii. 24, 25. Yn lle cyhoedd y byddai Duw i *fwytta* o'r offrymau, i gael ei foddhau gan en *hwyl*, i *nerthu* with yr allan, ei *fwrdd*, a chael ei *wasmaethu* gan Lefiaid, y mae'r Salmydd yn dangos, "Ni chwennychi aberth, pe amgen mi a'i rhoddwn: poeth-offrwm ni fynn." Aberthau Duw ydynt ysbryd dryllreng."—Ps. li. 16, 17. Y mae Jeremia yn cael ei ddarlunio gan Esay megis yn llefain allan yn y modd mwyaf llym, "Beth yw llosgfrwydd oeth aberthau i mi, medd yr Arglwydd? *llawn gennyf* o boeth aberthau hyrddfed, ac o fraster anifeiliaid breision; gwaed bustych hefyd, ac wyn, a bucchau, nid ymbleydiaes ynddynt. Pan ddeloch i ymddangos gêr fy mron, pwy a gesodd hyn ar eich law, sef, sengi fy nghyntedau? Na chwanegwch ddiwyn offrwm ofer; arogl-darth sydd ffiadd gennyf: Eich lleuadau newydd a'ch gwyliau gosodedig a gasaaidd fy enaid; y maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn."—Es. i. 11—14. Y mae Iesodion fel y rhai hyn, y rhai a cliad hesegi heb ddiweddd, a dôysgnat i ni yn anochleiddiaw, i aberthau gael eu hanrwymno, nid oddiar un effaith ag oedd gandlynt ar yr Hollalluog, nac un hyfrydwch oedd ef yn gymmeryd ynddynt; ond yn unig oddiar ymddarostyngiad ac anwybodaeth ei addolwyr. Efe a gafodd ei dneddfu i gamenran, ymysg ei hoed ddewiseiliig, y cydnwmad o gyfraith seremonol, a allasai en dôyrnu hwyur a'u cadw rhag syrthio yn ôl i ellun-addoliaeth, oddiar gamad ac ei geogan a gwychder ei elwg.

Oddiwrth hyn y tardd cauiynnad o'r unwaé ywysig. Os yw with rhannau neilduol o'r ysgrythur yn ymddangos yn gosod y Bod Goruchel allan mewn gulan ag y mae rheswm naturiol yn seon oddiwrtho, a'r hwn y mae rhannau eraill o'r ysgrifen sanctaidd yn ei wrthod; os yw ef wenthaan yn cael ei ddesgrifio fel pe byddai aberthau dynion yn cael eu priodol *effaith arnu*, ac yn ollnog i wenthreiti cydnewnhad yn ei dymmer ar yr enog; y mae'n rhaid i ni gadio fod y dull hwn o lefaru yn cael ei sylfaenu ar gau synnad, ac nad oes bldo un ile na chymwysder pwy by nag, ond ar y dyb ffugiol o fod ei garacter a'i gymmeddlau ef yn gyffelyb i garacter a chymmeddlau ei greadurnaid. Os gall dynion feudio gwybod dim am ei wir sylwaddd ef, y mae ef yn *anghymeriaidd*, cyfaill, cysson rhuwedd, gelyn anghymmellion dyganu. Ni allwn ni dim dycinymyg, fod ei serchiadau ef yn cael en cymmwnd, neu e lid yn cael ei lonydda trwy aberth, nawy nag y gall ef gael ei lonwi à fraster anifeiliaid, neu ddeilyn pleser oddiwrth aregl poeth-offrwm. Y mae'n *ffael* i ni ddeilyn y dull hwn o dduyngiad, neu ymddyrysu yn y gwrth-dôyweiadau mwyaf trwsgl. Y mae'n ysgrifenedig yn ein Bibl, mai "nid dyn yw Duw i edifarhau." Etto yr ydym yn darllain yn yr un tu dalen, "ac edifar fu gan yr Arglwydd osod Saul yn freuin."—1 Sam. xv. 29, 35. Ym mha fodd y dichon y petham hyn gael eu cymmodi, ond trwy olygu'r ysgrythur yn llefaru yn un lle, am Duw megis ag y *mae* ef; yn y lle arall, yn ôl amgyffreiddiadau dynol? Fel hyn hefyd y gallwn ni esponio sylwadau am Hanglwydd wedi y wrag o Samaria. "Ysbryd yw Duw," ac nid dyn megis ag y mae'r Iuddiewon a'r Samaraid hyd yn hyn wedi ei dybied; "a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef addoli," nid à seremoniau cnawdol, y rhai a darddant oddiar y *ffaj* o'r garacter dynol; ond à chreiddol y meddwl, yn gydunol a'i wir natrur, "mewn ysbryd a gwirionedd."—Iosu iv. 24. Y mae'r un cyferbynnad yn cael ei nodi allan hefyd [Ioan i. 17], "Y gyfraith a roddwyd trwy Moses; ond gras a gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist."

I'r dyben i egluro yr hyn a ddeallir wrth *wirionedd cymmed* yn yr Hen Destament, y mae'n rhaid i ni sylwi nad yw'r gair gwreiddiol, *emhar* * yn arwyddio dim rhagor

* Y mae'r gair hwn yn cael ei gyfieithu *cant*.—Ps. cxlvii. 15: 2 Negid fod yr eira yn *cuddio'r* ddaear.

na gorchuddio neu guddio, ac mai'r gair hwn yw'r gwreiddyn oddiwrth yr hwn y tybir y tyfodd ein gair Saesneg ni, *to cover* [gorchuddio]. Pan ddywedir, gan hynny, fod yr offeiriad, neu'r aberth [gwel Lef. x. 17; xvii. 11; i. 4], yn gwneuthur cymmod dros droseddiadau, nid ydym i ddychymmyg, ei fod ef yn heddychu y Duwdod, ond yn cuddio beiau y pechadur; yr hyn a ddywedir, y mae'r Hollalluog yn ei wneuthur, pan y mae yn eu maddeu hwynt.—Deut. xxi. 8; Ps. lxxxv. 2. Nid oes dim yn hyn ag sydd yn cynnwys fod effaith yn cael ei wneud ar y Goruchaf; fod ei lid yn cael ei lonyddu gan yr aberth, neu ei hun yn cael ei gymmodi â throseddwyr. Y syniadau hyn ydynt bell oddiwrth, hyd yn oed, eiriau'r ysgrythurau gwreiddiol. Hwy a gawsant eu dwyn i mewn trwy'r geiriau a wnaeth y cyfieithwyr ddefnydd o honynt; y rhai a fenthycciasant oddiwrth geiriadau aberthol y cenhedloedd, y rhai oeddent yn dychymmyg fod eu duwiau o nwydau cyffelyb iddynt eu hunain.

Nid yw dyben fy nhraethawd presennol yn fy arwain ymhellach i'r pwnge o gymmod, nac i sylwi, ei fod yn cael ei wneud yn gyffredinol, gyda golwg i *buro* beth bynnag oedd i gael ei gymhwyso i wasanaeth, neu i ymddangos yn mhresennoldeb y BRENIN MAWR; i symmud ymaith anghymwysiadau seremoniol, ac i sefydlu rheol cyd-gyfeillgarwch rhwng y Pen-arglwydd a'i ddeiliaid. 1. Yr oedd cymmod yn cael ei wneuthur dros yr *allor;* dros Aaron a'i feibion ar amser eu cyssegriad i'r swydd offeiriadol; dros y Lefiaid; a thros holl bobl Israel, trwy yr hwn yr oeddent yn cael eu sanctteiddio, h. y., eu neilldio i Dduw.—Ecs. xxix. 36; Lef. viii. 11—14; Num. viii. 12. 2. Ar yr wythfed ddydd, pan fyddai y cyssegriadau hyn wedi eu cwplhau, yr oedd cymmod yn cael ei wneuthur dros yr offeiriad a thros y bobl, yn flaenorol i ymddangosiad Jehofa iddynt.—Lef. ix. 7. Yn gystal hefyd a thros feibion Israel ar ddynesiad amrywiol wyhau.—Num. xxviii. 22, 30; xxix. 5.* 3. Yr oedd cymmod yn cael ei orchymmyn dros y cyfryw ag a fyddent wedi cael eu cyhoeddi yn *aflan;* wedi eu hanaddasu i ymddangos yn yr addoliad cyhoedd, oddiar wendidau corphorol, a dygwyddiadau damweiniol. Yr oedd yn cael ei wneud dros dŷ yn yr hwn yr oedd y gwahanglwyf yn torri allan, fel y byddai lân. 4. Dros y cyfryw ag a fyddent trwy *anwybodaeth* wedi torri gorchymmyn yr Arglwydd, ar eu gwaith yn cael eu dysgu yn well. Ac i osod allan sanctteiddrwydd Jehofa† yn y modd mwyaf effeithiol, yr oedd dydd o gymmod blynyddol wedi cael ei appwyntio dros y cyfryw halogiadau, ag a fyddent wedi diange rhag eu sylw, pa un ai halogiadau y cyssegr, yr offeiriaid, neu halogiadau y bobl fyddent.

Heblaw y cymmodau aberthol, y mae rhai eraill yn cael eu crybwyll yn yr ysgrythur. Pan yr oedd nifer meibion Israel yn cael ei chyfrif yn ol eu rhifedi, yr oedd pob un i roddi *iawn,* hanner sicel, yn gymmod dros ei einioes, fel na byddai plâ yn eu plith hwynt.—Ecs. xxx. 12. Hwn oedd i gael ei gymmwyso i wasanaeth y tabernacl. Yr oedd yn cael ei gyfodi megis treth; a'r rhai a wrthodent dalu, a ystyrid yn haeddiannol o farwolaeth. Yr oedd y taliad hyn, gan hynny, yn *cuddio,* neu yn amddiffyn, neu yn gwaredu, bywydau dynion oddiwrth *farwolaeth.* Pan oedd y bobl yn tychan ar ran Dathan ac Abiram, a'r plâ wedi dechreu, fe wnaeth Aaron *gymmod* drostynt, trwy osod arogl darth mewn thusser, a sefyllrhwng y meirw a'r byw.—Num. xvi. 46. Fel ag y gwnaeth Phineas hefyd, pan oedd yr Israeliaid wedi syrthio yn ol i eilunaddoliaeth, trwy osod Zimri a Chosbi i farwolaeth.—Num. xxv. 7, 8. A Moses a gynnygodd wneud cymmod dros y bobl, yn ol iddynt osod i fynu y llo aur, twy weddi

* Yr ydys wedi dadleu oddiwrth Lef. i. 3, 4, fod cymmod yn cael ei wneud hefyd, gan un a ddygai boeth-offrwm o'*i ewyllys ei hun.* Ond ar y llaw arall yr ydys wedi sylwi, fod y gair a gyfieithir yn y Bibl Saesneg (a Chymraeg) o'*i ewyllys ei hun,* yn cael ei gyfieithu yn yr un lle trwy y Groeg, decton, *cymmeradwy;* a thrwy y Saesneg, *accepted, cymmeredig;* a thrwy y Cymraeg, *cymmerir yn gymmeradwy*—adn. 4. Fel ag y mae'n debygol y dylai y 3edd ad. redeg fel hyn:—"Os poeth-offrwm o eidion fydd ei offrwm ef, offrymmed ef yn wrryw perffaith-gwbl; ac offrymmed ef wrth ddrws pabell y cyfarfod, megis (offrwm) cymmeradwy ger bron yr Arglwydd." Yna nid oes yn y fan yma ddim son am aberth *ewyllysgar.*

† Sef, ei sanctteiddrwydd, *fel brenin,* ac nid fel Duw. Nid trwy aberthau y mae dangos ei ragoroldeb, neu ei berffaith burdeb ef *fel Duw,* ond trwy hoff ac ewyllysgar gyflawniad o'i orchymmynion, ac ymadawiad hollol oddiwrth aflendid moesol buchedd.—*Cyfieithydd.*

a chyfryngiad.—Ecs. xxxii. 30. Ond nid yw siamplau o'r fath hyn, yn perthyn i'n pwnge presennol. Nid ydynt yn ymddangos yn ddim ond *cyfeiriadau* cysgodol at yr arfer sefydledig mewn perthynas i halogiadau seremoniol. Yr oedd y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu torri ymaith trwy weithrediadau, a ellid oddiar *eu heffaith*, eu galw, mewn ystyr draws-symmudol, yn gymmod; yn gymmaint a'u bod yn yr *unig amgylchiad* hynny yn tebygu i brynedigaeth seremoniol, ac ail-sefydliad yn ffafr Duw. Os ewyllysiwn benderfynu pa un ai bod y moddion a arferid yn yr achosion hyn, yn attebol i'r dyben cyfrifedig iddynt, pa un ai bod ganddynt un priodol effaith ar yr Hollalluog; dylid cofio, fod yn rhaid i ni ddychymmyg y Duwdod yn fod dynol, cyn y gallom amgyffred fod ei lid yn cael ei ostegu trwy arian, trwy farwolaeth blaenoriaid mewn plaid wrthryfelgar, trwy arogl-darth, na thrwy weddi.

Mewn perthynas i droseddiadau *moesol*, nid ydym yn gyffredin yn cael un cymmod wedi ei appwyntio drostynt yng nghyfraith Moses.* Yn y gwrthwyneb, y mae yn ysgrifenedig, "y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg, o briodor, neu o ddyeithr, cablu'r Arglwydd y mae; torrer ymaith y dyn hwnnw o fysg ei bobl, o herwydd iddo ddiystyrru gair yr Arglwydd, a thorri ei orchymmyn ef, llwyr dorrer ymaith y dyn hwnnw; ei anwiredd a fydd arno."—Num. xv. 30, 31. Nid oes eisiau i mi adrodd mor gyflawn y mae'r ysgrifenwyr sanctaidd, yn eu gwaith, yn gosod allan aneffeithioldeb aberthau mewn achosion o'r fath hyn; ac yn sefyll ar angenrheidrwydd edifeirwch er cael ffafr Duw. Mewn perthynas i droseddiadau cenhedlaidd o'r gyfraith foesol, y mae'n amlwg nad oedd un cymmod appwyntiedig, drostynt hwy, yn gymmaint ag mai canlyniad cospedigaethol, anufudd-dod yr Iuddewon, oedd eu haml gaethiwed.

Os honnir i'r aberthau seremoniol gael eu sefydlu gyda golwg ar farwolaeth Crist, a bod eu heffaith yn deilliaw oddiyno, ni allwn ni ddim llai nag atteb, nad yw'r Hen Destament yn son dim am y fath gyfattebiad; ond ei fod yn gysson yn cyferbynnu dilesiant offrymmau defodol, nid ag anfeidrol werth aberth i ddyfod a rag-gysgodid trwyddynt hwy; ond ag edifeirwch, barn, a thrugaredd. Synniad ag y mae'n Harglwydd yn ei chymmeradwyo pan ei traethir gan yr ysgrifennydd Iuddewig.—Marc. xii. 33, 34. Ac nid yw'r rhannau a arferir ddwyn o'r Testament Newydd, i brofi'r honniad hyn, yn dysgu i ni un peth ym mhellach na mawr ragoriaeth yr efengyl yn

* Tri achos sydd wedi eu crybwyll yn y rhai y mae cymmod wedi cael ei appwyntio mewn canlyniad i eudogrwydd moesol.

1. "Pan fyddai dyn o flaen swyddog yn peidio mynegu yr hyn a fyddai wedi ei weled, neu ei wybod."—Lef. v. 1. I hyn yr ydys wedi atteb, ei bod yn ymddangos na feddylir yma, un a fyddo o'i wirfodd, a thrwy wybodaeth, yn cadw yn ol dystiolaeth o'r gwirionedd mewn achosion barnol; ond un a fyddo, trwy angof neu anystyriaeth, yn methu rhoddi tystiolaeth gyflawn a chywir, ac yn ol llaw yn cofio ei wendid Y mae'r achosion craill â'r rhai y clymmir hwn yn arwain i'r deongliad hyn. Heblaw hynny, y mae'n amlwg fod cadw tystiolaeth yn ol yn y fath achosion, yn dyfod o fewn cylch y rheol gyffredin, "Y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg——"—Num. xv. 30.

2. "Pan fyddai dyn yn ymddwyn yn dwyllodrus i'w gymmydog."—Lef. vi. 1—7. Yn yr achos hyn yr ydym yn cael fod yn rhaid talu lawr gyflawn dâl, ynghyd â chwanegol gamlwrw *(fine)* cyn y gallasai cymmod gael ei wneud—adn. 5. Mewn perthynas i dwyll a chelwydd, ac anghyfiawnder rhwng dyn a dyn, er eu bod yn sicr yn gamweddus, etto y mae'n ymddangos yn gymmwys iawn, i'r blaid fyddo wedi troseddu gael ei hadferu i freintiau cyffredin yn addoliad cyhoeddus yn nhŷ Dduw, yn ol byddo ad-daliad a iawn wedi cael eu gwneud am y colledion.

3. "Halogiad caeth-forwyn."—Lef. xix. 20. Atteb: Mewn perthynas i'r cymmod appwyntiedig dros un fyddai wedi halogi caeth-forwyn wedi ei dyweddio i wr, ni a ddylem ystyried mor lleied o hawl natturiol neu wladol a allasai caethion honni; mor wael oeddid yn eu hystyried ar yr amser; ac yn ganlynol, na fuasai hwn yn cael ei gyfrif yn drosedd erchyll iawn mewn oes a gwlad ag nad oedd yn ystyried cyd-orweddach â chaeth-forwyn yn haeddu dim gwaradwydd. Oddiwrth hyn y mae'n ymddangos fod y gyfraith hon (yr hon sydd, y mae'n debygol, wedi ei darparu yn neillduol yn erbyn trais meistri ar burdeb ac anrhydedd priodais-wely y rhai oedd yn ymddibynnu arnynt) o'r un fath a'r hon oedd yn caniattau ysgariadau; am yr hon y mae ein Harglwydd yn dywedyd, "O achos eich calon-galedwch chwi yr ysgrifenodd efe, Moses, i chwi y gorchymmyn hwnnw."—Marc. x. 5.

gyffredinol, ar y gyfraith, megis ag y mae sylwedd wrth ei gydmaru a *chysgod*, i weini i berffeithiad a sancteiddrwydd y rhai a lynant wrthi.

Nad oedd Crist yn ei farwolaeth mewn un modd yn aberth mewn ystyr lythyrennol; na wnaeth ef ddim gwir gymmod, pan roddodd i fynu yr ysbryd ar y groes, sydd dybia i, yn amlwg, oddiar amrywiol resymmau.

1. Ein Harglwydd a gafodd, pa mor anghyfiawn bynnag, ei ddihenyddu fel drwgweithredwr; yn yr hon ystyr fe ddywedir iddo gael ei wneud yn *bechod*—iddo gael ei wneud yn *felldith*, "canys y mae'n ysgrifenedig, *melldigedig* yw pob un sydd ynghrog ar bren."—Deut. xxi. 23; Gal. iii. 13. Yn awr yr oedd beth bynnag oedd yn felldigedig yn cael ei olygu megis aflan, a chwedi ei gyflwyno i ddistryw. Aberth, yn y gwrthwyneb, oedd bob amser y mwyaf perffaith yn ei ryw, yn lân ac yn ddianaf. A phan ydoedd yr Iesu yn cael ei gydmaru i wrthrychon, y naill yn ffiaidd a'r llall yn gymmeradwy gan ei Dad Nefol, ni allai ef fod yu un o honynt mewn ystyr lythyrennol; ac ni all gael ei alw ar enw y naill na'r llall, ond yn unig oddiar gymmwysder benthyccol.

2. I'r rhai a ddaliant ei fod ef yn wir aberth, ac nid yn unig hynny, ond mai ef oedd yr unig briodol aberth dros bechod a ddangoswyd erioed, ni allwn ofyn, ble'r oedd yr allor, neu'r tân, arwydd-nod y Duwdod, a dybid ei fod yn ymborthi arno? Yn ol y defodau Iuddewig, yr oedd yr aberth yn cael ei ddarparu a'i roddi gan y pechadur, yr hwn oedd i gael budd oddiwrth yr offrwm. Yn lle cael ei roddi gan yr holl fyd dros ddrygioni y rhai y bu efe farw, efe a draddodwyd i Pilat gan y genedl Iuddewig, yr hon a *wrthododd* ei Iechydwriaeth ef. Yn lle gan offeiriad, efe a gafodd ei ladd gan fintai o filwyr Rhufeinig.

3. Ond fe attebir, iddo *roddi* ei hun; iddo gyflawni swydd offeiriad ei hun. Y fath gymmysgedd sydd yma! Yr oedd ef ar yr un pryd yn aberth—y pechadur a ddygai yr offrwm—yr offeiriad a'i hoffrymmai—y drugareddfa wedi ei thaenellu â'i waed—ac ynhyb rhai, y Duw oedd yn gofyn yr aberth. Mewn iaith gyffelybiadol fe all gael ei alw ar bob un o'r enwau hyn, ond yr un diweddaf; megis mewn un lle yn St. Ioan (x. 1, 2, 7, 11) y mae ef yn cael ei alw bugail a drws y defaid. Ond y mae'r cymmwysiad cymmysgedig o'r *holl* enwau hyn atto ef, yn dangos na all un o honynt fod yn perthyn iddo, ond yn unig mewn ystyr gyffelybiadol.

4. Nad oedd ef yn briodol aberth, na wnaeth ef ddim gwir gymmod, sydd amlwg oddiwrth hyn. Y troseddiadau y gwnaed cymmod drostynt trwy aberthau oeddent yn *gyffredinol* o nattur seremoniol; y rhai a symmudodd Crist ymaith, oeddent droseddiadau moesol. Y mae St. Paul yn nodi allan y gwahaniaeth hwn pan y mae ef yn annog ei wrandawyr i gredu yn Iesu, fel y cyfiawnheid hwynt oddiwrth yr holl bethau, y rhai ni allent trwy gyfraith Moses, gael ei cyfiawnhau oddiwrthynt.—Actau xiii. 39. "Rhoddion ac aberthau, y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio'r addolydd."—Heb. ix. 9. "Amhossibl yw i waed teirw a geifr dynnu ymaith bechodau" moesol.—x. 4. Ac ni chroeshoeliwyd Iesu i buro halogiadau seremoniol.*

5. Y mae'r efengyl yn cael ei desgrifio yn gysson megis yn dechreu yn ffafr, trugaredd, a hir-ymaros Duw; ei rydd-rodd i ddyn trwy gyfryngiad Crist, a'i weinidogaeth dan Dduw. Ni ellir cymmodi y meddwl hwn â'r meddwl o aberth. Rhaid deall aberth yn yr ystyr o anrheg: a pha fodd y gallasai yr oruchwyliaeth newydd, fod yn effaith rhydd garedigrwydd Duw, pe buasai mewn un ystyr wedi ei *phrynu* oddiwrtho trwy gyflawn daliad, neu wêrth derbyniol? Nid arosodd tad y mab afradlon mewn sarrug anghymmodlondeb, hyd onid ennillodd offrymmau a thaerni, un mwy tostur-

* Mewn gwrthwynebiad i hyn y mae'n bossibl y dywedir, fod yr awdwr at yr Hebreaid, yn desgrifio Crist megis yn dywedyd, "Corph a gymhwysaist i mi."—x. 5. Gan ddal allan i Grist gael corph i'r dyben i'w offrymmu yn aberth cymmodol, yr hwn a dderbyniai efe. Ond gan addef, yr hyn sydd yn amheus iawn, mai'r Iesu yw y llefarwr yma, ac mai *corph* yw'r iawn ddarluniad; etto, wrth *gorph* y meddylir yn amlwg yma, cyfansoddiad, nerth, galluoedd natturiol; trwy y rhai y cyflawnodd ef ei holl weinidogaeth: nid yn unig y bu farw, ond y pregethodd, gan ddangos allan siampl o rinwedd; ac felly y gwnaeth ewyllys Duw, megis ag yr oedd wedi ei appwyntio iddo. Y mae'r apostol yn ymdrechu sefydlu cyferbyniad rhwng *aberth, a chyflawni ewyllys Duw.* Ac nid yw raid i ni ei dybied ef mor

iol nag ef, i dderbyn ei fab oedd yn dychwelyd yn ol. Yr oedd lle i lanw'r adroddiad â dagrau mam, a chyfryngiad brawd serchiadol; ymglymiad diddatod yr hwn oedd wedi ennill iddo serch anwrthwynebol ei dad. Ond y cyfryw ddarluniad a fuasai yn niweidiol i'r gwirionedd. Nid oedd dim eisiau annogaethau allanol ar dynerwch tadol. Tra'r oedd y dyn ieuange etto ymhell, ei dad a'i canfu ef, ac a dosturiodd, ac a redodd ac a syrthiodd ar ei wddf ac a'i cussanodd ef. Yr oedd yn ei gweled yn gymmwys i lawenychu a gorfoleddu, o blegid fy mab hwn, ebe fe, oedd farw ac a aeth yn fyw drachefn; a gollesid ac a gaed.

Dylid cofio yn y fan hyn, fod maddeuant pechodau yn cael ei gyfrif i adgyfodiad Crist yn gystal ag i'w farwolaeth. Crist, medd St. Paul, a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a *gyfodwyd* i'n *cyfiawnhau* ni.—Rhuf. iv. 25. "Pwy yw'r hwn sydd yn damnio? Crist yw'r hwn a fu farw, ie, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd."—viii. 34. "Os Crist ni *chyfodwyd*, ofer yw eich ffydd chwi."—1 Cor. xv. 17. Y mae hyn yn dangos nad allasai *marwolaeth* Crist fod yn briodol *aberth*. Canys yna buasai yn ddigonol, ei hun, heb un peth arall, er symmudiad ymaith euogrwydd yn y credadyn edifeiriol. Ac ni fuasai'r effaith hyn yn cael ei briodoli i un amgylchiad arall.—*Commentaries and Essays*

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD CWARTEROL YR HYDREF YN SAINT CLEARS.

Bydd y cyfarfod hwn i gymeryd lle yn ol y drefn arferol, ar ddydd Iau, y 29ain o Fedi, sef Dydd Gwyl Mihangel. Bydd cyfarfod y prydnawn o'r blaen am dri o'r gloch, a dymunir ar y gweinidogion oll i ddyfod yno yn brydlawn. Cofier mai testun y gynnadledd fydd—*Cyfeiliornad Anfoddol.*

GOHIRIAD (PROROGATION) Y SENEDD.

Dydd Sadwrn, yr 20fed o Awst, rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol trwy ddirprwyaeth i nifer mawr o ysgrifau oeddent wedi eu passio trwy'r ddau dŷ. Yr Arglwyddi Ddirprwywyr oeddent yr Argl. Ganghellwr, Iarll Granville, Duc Newcastle, a Duc Argyll. Wedi hyn aethpwyd i hysbysu i'r Seneddwyr fod y Frenhines bellach yn rhoddi rhyddhad iddynt, am ryw dymor, oddiwrth eu llafur.

Yn yr araith, yr hon a ddarllenwyd gan yr Argl. Ganghellwr, dywedai ei fod wedi cael gorchymyn gan ei Mawrhydi i fynegi ei chymeradwyaeth calonog o'r zel a'r diwydrwydd a ddangoswyd gan aelodau y ddau Dŷ, drwy gydol yr eisteddfod faith a llafurus ag oedd yn awr ar derfynu. Cyfeiria gyda llawer o foddhad at ddilead a gostyngiad trethi, ag oeddent yn rhwystr i fasnach ac yn gyfyngiad ar gysuron y bobl—at y trefniadau a wnaed tuag at osod cyllid ac adnoddion y wladwriaeth i sefyll ar dir mwy parhaus a boddlonol—at gynnydd ein masnach a'r llwyddiant sy'n ffynu yn gyffredinol—yr ysgrif at well trefn ar lywodraeth yr India a'r un at well gweinyddiad o'r meddiannau sydd wedi ei roddi at amcanion addysgiaeth ac elusengarwch.

Yna y telir diolch, fel y mae yn arferol, i'r boneddigion Tŷ y Cyffredin, am y *supplies* a roddi sant tuag at draul y llywodraeth am y flwyddyn bresenol, ac amddiffyniad y wlad ar dir a môr; ac addewir eu cyfleu gyda chymaint o gynnildeb ag a fyddo yn gyson a'r amcan mawr o sicrhau ein diogelwch cenhedlaethol.

Parth yr anghydfod rhwng Twrci a Rwssia ni fynegir dim o newydd heblaw bod gan ei Mawrhydi *reswm da i obeithio*, trwy ymdrechiadau y gynnadledd sydd yn eistedd yn awr yn Vienna, y bydd i gytundeb anrhydeddus (*honourable arrangement*) i gael ei ddwyn oddiamgylch yn fuan. Mynegir hefyd fod y rhyfel â'r Caffres wedi terfynu;

---

anghysson, a datgan yn gyffredinol, nad oes gan Dduw hyfrydwch mewn aberth, ac offrwm, ac offrwm dros bechod, ac etto haeru ar yr un anadl iddo roddi corph i'n Harglwydd, yn unig fel y byddai iddo ei offrymmu yn briodol a llythyrenol aberth, heb yr hyn ni allasai pechodau y byd gael eu mhaddeu. Gwneuthur ewyllys yr Hollalluog, ac ymostwng i farwolaeth (nid fel aberth, ond fel drwg-weithredwr), mewn canlyniad i'r gwaith a roddwyd iddo, oedd yr holl aberth a offrymmodd Crist erioed.—adn. 10. Trwy ewyllys Duw y cafodd y Cristnogion yn ddechreuol eu sanctaeiddio; ac nid oedd offrymiad corph yr Iesu, ond yn unig ail achos trwy yr hwn y dygwyd yr ewyllys hynny oddiamgylch. Sylw'r apostol ar y Salmydd yw, "Y mae yn tynnu ymaith y cyntaf (aberth) fel y gosodai yr ail (ufudd-dod)."—ad. 9.

a bod y rhyfel yn Burmah hefyd wedi bod yn llwyddianus i gyrhaeddyd yr amcan, ac wedi terfynu mewn sefydlu heddwch.

Yn union-gyrchol ar ol darllen yr araith, gohiriwyd yr eisteddfod seneddol hyd y 27ain o Hydref nesaf.

Y LLYS.

Disgwylid y byddai y Frenhines a'r Tywysog ynghyd â'r llys, i ymweled â Dublin ar y 29ain o'r mis diweddaf, ac i aros yno ryw ychydig ddyddiau, a chwedi'n i fyned i Balmoral yn yr Alban. Y mae yr arddangosiad (*Exhibition*) ag sydd wedi ei agor yn Dublin, er ys rhai wythnosau, wedi bod yn foddion mae'n debyg i ennill llawer o ymwelwyr nodedig eraill, yn gystal a'i Mawrhydi a'r teulu Brenhinol.

EISTEDDFOD SENEDDOL, 1853.

Ni chaniateid lle nac amser, pe buasai'r gallu, i roddi crynodeb o'r hyn oll a gytunwyd arno yn eisteddfod ddiweddar y Senedd, mewn ffordd o gyfnewidiad os nid gwellhad ar drefniadau a chyfreithiau'n tir; heb son am yr hyn a gynnygiwyd gan hwn a'r llall o bryd i'w gilydd, ond a wrthodwyd; nac am y mesurau oeddent mewn ffordd deg i gael eu passio, ond y bu gorfod eu gohirio o achos bod yr amser wedi cyrraedd mor bell.

Llwyddodd y weinyddiaeth i bassio eu mesurau ymron oll. Braidd y gall ein darllenwyr fod heb wybod am orchestion digyffelyb Canghellwr y Drysorlys, Mr. Gladstone. Mewn un araith, ond un hynod o eglur, gynnwysfawr, a hyawdl, anturiodd a llwyddodd i berswadio pobl Prydain i oddef yr *Income Tax* gyda'i hanghyfartalwch am saith mlynedd yn mhellach—i estyn y dreth honno i'r Iwerddon—i ddwyn perchenogion tai a thiroedd i ymostwng i dreth ar etifeddiaethau olynyddol—ac i ddwyn i weithrediad ar unwaith ac yn ddioedi egwyddorion rhyddfasnachol Syr Robert Peel. Pan y cyfododd i lefaru ymddangosai y pethau hyn yn amhossibl; pan eisteddodd i lawr yr oeddent mewn effaith wedi eu cyflawni eisioes. Yn ofer y bu yr aelodau Gwyddelig yn gwaeddi ac yn bygwth o achos dodi ar yr Iwerddon i dalu'r dreth yr un modd a Phrydain. A chwbl ofer y trodd bygythion Iarll Derby a'i blaid yn erbyn y dreth ar etifeddiaethau (*Succession Tax*). Gelwir sylw yn neilldduol at yr ysgrif olaf, fel un hynod o drefnus, gyson, a chynnwysfawr; gyda golwg ar ei chyfartalwch a'i chymmwysiad at yr amrywiol amgylchiadau y bydd meddiant yn cael ei etifeddu. Heblaw y gorchestion a enwyd, ond mewn canlyniad iddynt, llwyddodd y Canghellwr i wneuthur trefniadau a gostyngiadau ar y trethi, y rhai a gymerasant i fynu lawer o amser ac ystyriaeth y Senedd, a'r rhai nis gellir llai na theimlo y byddant o ysgafnâd cyffredinol. Nid oes eisieu dywedyd dim am ostyngiad y tal ar y Tê a'r Stamps, na'r dlëad o'r dreth ar wneuthur Sebon, ac ar Hysbysiadau (*advertisements*). Mewn canlyniad i'r drefn newydd ar argraffnodau (*stamps*) newyddiaduron, bydd y cyhoeddiadau misol o hyn allan yn alluog i roddi newyddion gwladwriaethol hen a diweddar. Methodd Mr. G. mewn un peth; a hyny ydoedd sefydlu *stock* o £2 10s. y cant, diolch am hyny i gastiau rhyfelgar Emprwr Rwssia.

Gobeithiwn y bydd i Ysgrif y Tiroedd Eglwysig Canada (*Clergy Reserves Bill*) yr hon a wrthwynebwyd yn gryf gan blaid Iarll Derby, i roddi tawelwch ar y pen yn Canada. Y canmolianeth mwyaf a ellir yn gyflawn ei roddi i'r *India Bill*, ydyw ei fod yn symud rhai drygau, ac yn agor drws i symud eraill.

Y mae un gyfraith newydd arall, yr hon sydd o'r pwys blaenaf; sef, yr un er defnyddio cospedigaethau eraill yn lle alltudiaeth. Ceir gweled, ond odid maes o law, beth fydd effeithiau y *Charitable Trusts Bill*.

TWRCI A RWSSIA.

Nid yw y cwestiwn Dwyreiniol, fel ei gelwir, wedi cael ei gwbl benderfynu eto. Ond y mae bron yn sicr yn awr mai heddwch fydd, ac nid rhyfel, dros ryw dymor o leiaf. Derbyniwyd hysbysiadau o St. Petersburgh, dyddiedig Awst 3ydd, y rhai a gyhoeddant fod yr Ymerawdwr Nicholas wedi ymwrando ar y nodyn a anfonwyd iddo o Vienna, ac ei fod yn derbyn y cynnygiad dan yr amgylchiad y bydd i'r Porte yntau i ymlynu wrtho. Cadarnhawyd yr hysbysiad gan Argl. J. Russell yn Nhŷ y Cyffredin ar y 17eg; ond ni roddwyd ond ychydig neu ddim ychwaneg o hysbysrwydd ynghylch y peth, na chanddo ef na chan Argl. Clarendon. Disgwylir beunydd glywed fod y Sultan yntau wedi tystio ei gymeradwyad o'r nodyn, er y gwyddys yn bur dda nad yw y nodyn hwnw yn galw ar yr Ymerawdwr Rwssiaidd yn ddioedi i alw yn ol ei fyddinoedd o Moldavia a Wallachia. Pa fodd bynag, dywedodd Arg. J. Russell yn bendant nas bydd yr heddwch yn gyflawn, hyd nes byddo ei fyddinoedd wedi rhoddi i fynu eu gafael ar y Tywysogaethau, a dychwelyd i'w gwlad ei hun. Yn y cyfamser y mae perygl parhaus o wrthryfel dorri allan yn Twrci o achos cadw y bobl yn ol rhag ymosod ar eu gelynion. Pe byddai i'r fath ddigwyddiad gymeryd lle, y mae yn fwy na thebyg y byddai Nicholas yn ddigon o gnaf i wneuthur esgus o'r amgylchiad, er mwyn cadw ei ysglyfaeth mewn gafael. Dichon y gwelir nad ydys,

wrth geisio gochelyd rhyfel mewn pob modd, ar hyn o bryd, ddim ond yn gohirio y fflangell waedlyd am flwyddyn neu ddwy.

CHINA.

Y mae y gwrthryfelwyr, neu fel eu gelwir yn awr, y fyddin wladgarol, yn ennil tir yn barhaus. Y maent mewn meddiant o Nankin ac Amoy. Y mae eu penaethiaid a'u canlynwyr yn proffesu Cristnogrwydd yn ol rhyw ddulliau neillduol, ac yn distrywio pob delwau a themlau. Geilw y blaenor ei hun "y brawd ieuengaf i Iesu Grist."

Barddoniaeth.

FFOLINEB BALCHEDD.

MEWN rhyfyg a balchder, paham bydd dyn marwol
Ymchwyddo un amser? mae'n llwyr afresymmol;
Fel cysgod ar ddiflan, neu wennol ar aden,
Mae'n brysio o fywyd i orphwys mewn daeren.

Bydd dail coed y dolydd a'r gelltydd i gwympo,
A chael eu gwasgaru i byllau i wywo;
'Run wedd syrth yr uchel a'r isel i'r beddau,
Sy'n barod i'w llyngcu ar lan afon angau.

Mae'r plentyn a garai'r anwylfam o'r galon,
A'r fam dyner hithau, mewn beddrod yr awrhon;
Y tad fai'n eu coledd â gofal diflino,
Sydd hefyd mewn graian yn llonydd yn huno.

'Does gof am y merched prydweddol a mwynlon,
A gaffent eu canlyn gan lu o gariadon;
O'r holl rai a'u carent ni cheir un o honynt—
'Does neb ar glawr daear a wyr ddim am danynt.

Mae pennau brenhinoedd a wisgent goronau,
Yn gorphwys yn dawel yngwaelod eu beddau;
Calonau y cedyrn a llygaid y doethion,
Ynt oll yn nhir anghof, preswylfa y meirwon.

Y gwr fa'i yn medi a hau ar y meusydd,
A'r hwn a fugeiliai ei ddefaid ar ddolydd;
Y tlawd fu yn myned a'i gwd i gardotta,
Ynt oll dan law angau yn ddiogel mewn dalfa.

Ni welwn y bobloedd yn cilio yn ddiball,
Fel blodau y meusydd—'nol un daw un arall;
Mae'r llall yn ei ganlyn, pan êl un tô ymaith,
I adrodd y chwedlau a gaed glywed ganwaith.

Y peth ydym ni, 'run peth fu ein tadau,
Yn gwel'd yr un haul a'r un lleuad a ninnau;
Yn clywed yr adar yn trydar trwy'r coedydd,
A chanfod y meillion yn harddu y dolydd.

Ein tadau a ofnent wrth weled y ffrydiau,
A redant yn ddibaid trwy lynn cysgod angau;
Wrth fywyd, fel ninnau, ein tadau o lynen',
Ond cilio wna bywyd fel 'deryn ar aden.

Am eu cariad a'u cas, 'does gennym ddim hanes—
Os bu unwaith yn frwd, oer nawr yw y fynwes;
Os trwm bu eu galar, ni chlywir eu cwynfan,
O annedd y meirwon un llais ni ddaw allan.

Mae'n teidiau yn feirw—ar fyr iawn cawn ninnau
Ein gosod yn isel, i orphwys mewn beddau;
Dyw'n heinioes ond cysgod sydd bron a diflannu,
Mae'n oriau yn gyflym yn dirwyn i fynu;
Paham bydd dyn marwol ymchwyddo mewn balchder,
A gosod ar wagedd un funud ei hyder?

Castellnedd. J. D.

At ein Gohebwyr, &c.

DERBYNIADAU Y MIS.—*J. Jones; O. Evans; J. D.; R. J. J.; E. Glan Cynon; Ieuan Ddu; a D. Beynon.*

PEN-Y-BONT ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.